

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



## ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022-23

Cyhoeddwyd Hydref 2023



This publication is available in English



## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



Prif Swyddog  
Tân



Cadeirydd yr  
Awdurdod Tân

### Tanio Llwybrau: Adroddiad Cynnydd a Hunanasesiad Cynhwysfawr o Ragoriaeth Tân ac Achub

Croeso i adroddiad cynnydd a hunanasesu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2022-23.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Corfforaethol 2021-24 yn nodi ein saith amcan gwella a llesiant hirdymor. Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i barhau i fynd ar drywydd yr un amcanion hynny yn 2022-23 ac ym mis Mawrth 2023 cafodd y cynllun ei ddiwygio.

Mae'r adroddiad asesu hwn yn manylu ar ein cynnydd mewn perthynas â'r saith amcan gwella a llesiant, cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a chynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Roedd y flwyddyn 2022-23 yn garreg filltir i ni – am y tro cyntaf ers i ni ddechrau cadw cofnod, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn newyddion gwych, ond rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon ac rydym wedi ymrwymo i weithio'n galetach fyth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.

Mae'n bleser gennym adrodd ein bod wedi gwneud cynnydd rhagorol mewn perthynas â'n hamcanion ac mae'r manylion yn y ddogfen hon yn adlewyrchu pa mor brysur y buom eleni a faint o gynnydd rydym yn ei wneud i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Gogledd Cymru.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw awgrymiadau ar sut i wella ein dulliau adrodd – mae ein manylion cyswllt ar dudalen 89.

**YN GWNEUD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL FWY DIOGEL I FYW YNDDI, I  
WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI**

## CYNNWYS

GOFYNION CYFREITHIOL AR DDULLIAU ADRODD .....	6
GOGLEDD CYMRU .....	8
AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU .....	9
STAFFIO.....	10
BETH A DDISGWYLIR GAN YR AWDURDOD TÂN.....	11
CYNNYDD YN ERBYN AMCANION GWELLA A LLESIANT .....	12
AMCAN 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru. ....	13
AMCAN 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch .....	20
AMCAN 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.....	23
AMCAN 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid .....	28
AMCAN 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg.....	33
AMCAN 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.....	40
AMCAN 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.....	44
ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2022-2023 .....	47
MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG.....	48
CYNNYDD YN ERBYN AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2022-2023.....	60
CRYNODEB GWYBODAETH PERFFORMIAD.....	76
SIARTER YMATEB I DANAU MEWN CARTREFI YN 2022-23 .....	78

BETH MAE ERAILL YN EI DDWEUD AMDANOM NI.....	83
GWYBODAETH ARALL.....	84
YMGYNGHORIADAU.....	86
GEIRFA A DIFFINIADAU .....	87
DWEUD EICH DWEUD .....	89

## GOFYNION CYFREITHIOL AR DDULLIAU ADRODD

Mae'r Awdurdod o'r farn bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ym mhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth isod:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y nodau hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyda'i gilydd, edrych ar atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig<sup>1</sup>. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Yr amcanion hirdymor hyn yw gwelliannau y mae'r Awdurdod am helpu i'w cyflawni yng Ngogledd Cymru, a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac at symud Cymru'n nes at gyflawni ei hamcanion llesiant.



Ar ôl nodi'r amcanion hirdymor hyn, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio (a restrir isod), ac i gyhoeddi adroddiad cynnydd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y pum ffordd o weithio:



Cydbwysu anghenion tymor byr gydag anghenion hirdymor.

Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Cymryd ymagwedd integredig, gan gydbwysu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Cofio am yr amrywiaeth gyfoethog o bobl yng Ngogledd Cymru a'u hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion llesiant.

<sup>1</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion  
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-hanfodion-2021.pdf>

Mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru hefyd yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac maent yn ddarostyngedig i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009. Felly, rhaid iddynt ddilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus unigol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

O ran yr ardal a gwmpesir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sefydlwyd tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Ynys Môn a Gwynedd.
- Conwy a Sir Ddinbych.
- Sir y Fflint a Wrecsam (unwyd ar y 1<sup>af</sup> o Ionawr 2023).

Cyhoeddodd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'Gynllun Llesiant' i nodi eu blaenoriaethau, a sut maent yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn eu hardaloedd.



## **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Equality Act 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, annhegwch ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

## **Safonau'r Gymraeg 2016**




Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg eu Hysbysiadu Cydymffurfio i'r awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o Safonau'r Gymraeg (fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5); 2016) y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.


## GOGLEDD CYMRU

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.


### Poblogaeth:




### Arwynebedd KM<sup>2</sup>:




### Dwysedd Poblogaeth:




### Cartrefi:




### Eiddo nad ydynt yn Gartrefi:




### Hyd y Ffordd KM:



### Arwynebedd Amaethyddol KM<sup>2</sup>:











### Siaradwyr Cymraeg:



## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2022-23.

Gorsafoedd Tân	Injans Tân Llinell Blaen	Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwyl	Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2023)
 44	 54	 13,224	 902 (cyfrif pen)
Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Tanau	Galwadau Diangen	Argyfyngau nad oeddent yn Dân
 5,896	 2,011	 2,674	 1,211

### Beth yw ein patrymau sifft presennol?

Mae ein diffoddwyr ar ddyletswydd yn ôl y galw neu ein diffoddwyr ar-alwad (rhan amser) wedi'u lleoli'n bennaf mewn gorsafoedd tân gwledig ar draws ein rhanbarth. Mae'n ofynnol iddynt fyw o fewn pum munud i'w gorsaf dân a chario hysbyswr er mwyn gallu ymateb i argyfyngau, yn ogystal â mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnir ymlaen llaw.

Mae ein criw dydd yn ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaerdybi. Mae system shift y criw dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau gyfuno gweithio oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac aros ar-alwad o leoliad cychwynnol dros nos er mwyn darparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.

Mae ein diffoddwyr tân amser cyflawn neu amser llawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio sifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd er mwyn darparu ymateb 24 awr. Yn ychwanegol, mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.

Mae diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn gweithio sifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn ôl yr angen.




## STAFFIO

Ar 31 Mawrth 2023	Cryfder cyfwerth ag amser llawn	Cyfrif pennau staff unigol
Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn)	279.00	280
Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Rhan Amser/ar-alwad)	365.25	452
Gwasanaethau Corfforaethol	135.58	139
Ystafell Reoli	30.71	31
<b>Cyfansymiau</b>	<b>810.54</b>	<b>902</b>

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categorio fel diffoddwyr tân ar-alwad; dyma un o'r cyfrannau uchaf o'i gymharu ag awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

Mae'r siart bar isod yn dangos cyfanswm nifer y diffoddwyr tân ar-alwad (yn ôl cryfder) fel canran o gyfanswm y gweithlu ar draws awdurdodau tân ac achub yn Lloegr a Gogledd Cymru.




Data ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022.

Ffynhonnell: [Tablau data ystadegau tân - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

# BETH A DDISGWYLIR GAN YR AWDURDOD TÂN

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru




## CYNNYDD YN ERBYN AMCANION GWELLA A LLESIANT

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2022-23. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2022-23 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31<sup>ain</sup> Hydref 2023.

Yn 2018-19 cynyddodd yr Awdurdod nifer yr amcanion yr oedd yn eu dilyn er mwyn cydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "...sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant".

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd megis 'gwirwyr taith', datblygwyd casgliad newydd o amcanion yn unol â'r datblygiad cynaliadwyedd a fu o gymorth i nodi cyfleoedd o ran sut y gallai'r Awdurdod wella ei gyfraniad at amcanion llesiant Cymru.



Yn ystod 2022-23 gwnaed gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol. Tanategir y gwaith hwn ymhellach gan ddatblygu set o 'Flociau Adeiladu' sy'n set o fesurau i gefnogi'r amcanion llesiant a'r amcanion adrannol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn aros am gymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ac mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2023-24.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

## **AMCAN 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.**



Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Gall amrywiaeth o ffactorau gynyddu'r risg i bobl ddiodeff tanau damweiniol yn y cartref, er enghraifft eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol, bod ar eu pennau eu hunain adeg y tân, a chael eu heffeithio gan alcohol a/neu gyffuriau.

Mae unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fyddant yn digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac yn iachach, ond hefyd yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae effeithiau llygredd o danau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn atal pobl rhag gwneud gweithgareddau awyr agored a all effeithio'n negyddol ar les corfforol a meddyliol. Trwy gydol 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i gadw'n ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd, neu allan yn y gymuned.

### **Cam gweithredu 1: cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydynt yn digwydd.**

Yn ystod y flwyddyn, aethom at 344 o danau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd 23 o bobl anafiadau bach a thri arall angen triniaeth dros nos mewn ysbyty.

Rhoddodd staff galwadau'r Ystafell Reoli gyngor achub bywyd yn ystod galwadau 999 wrth geisio cadw'r preswylwyr yn bwylllog i ganolbwyntio ar eu dihangfa. Bu'r cyngor hwn yn amhrisiadwy yn ystod galwad at dân mewn tŷ yn Sir Ddinbych tra bod pum injan dân ar eu ffordd, arhosodd ein staff Ystafell Reoli ar y ffôn gan roi cyngor achub bywyd a thawelwch meddwl gydol yr amser. Llwyddodd 12 o bobl i adael yr adeilad a oedd ar dân yn ddiogel, gyda phedwar yn cael eu hachub gan ddiffoddwyr tân, a dim ond mân effeithiau anadlu mwg a ddiodeffodd pob un o'r preswylwyr. Yn dilyn ymchwiliad, tybiwyd mai gweddillion braster wedi ymgasglu mewn teclyn coginio oedd yn gyfrifol am y tân.

Mae Grŵp Llywio Ymgyrch sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cydweithio â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i greu ac ymateb i ymgyrchoedd atal lleol a chenedlaethol, er enghraifft:

- Diwrnod Pobl Hŷn
- Diwrnod Dim Ysmygu
- Wythnos Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar

Bu staff diogelwch tân hefyd yn bresennol mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, i hyrwyddo ein gwaith atal ac amddiffyn, gan gynnwys yr 'Ymgyrch Gallwch Achub Bywyd' i annog pobl i gadw llygad am eraill mewn ymdrech i helpu i atal tanau damweiniol mewn cartrefi.

### **Cam gweithredu 2: cyflawni 20,000 o Archwiliadau Diogel ac lach naill ai yn Gymraeg neu Saesneg gydag o leiaf 25% o'r aelwydydd a archwiliwyd yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall.**

Cwblhawyd cyfanswm o 18,052 o Archwiliadau Diogel ac lach yn ystod y flwyddyn, gyda 32% yn cael eu cynnal

mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner; roedd ychydig dros draean o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y Gwasanaeth ar broses uchelgeisiol o ailgysylltu â phreswylwyr yr oeddem wedi cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach 'Blaenoriaeth Uchel' iddynt yn flaenorol, mor bell yn ôl â 2019-2020. Rhoddwyd y manylion cyswllt i'r criwiau tân gweithredol fesul cam, gan ymdrin â nhw bob blwyddyn yn eu tro. Ein nod yw cwblhau'r broses hon erbyn mis Ebrill 2024 ac ar ôl hynny bydd y galwadau ail-ymgysylltu yn parhau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn dod yn fusnes fel arfer. Nid yw hyn yn cynnwys atgyfeiriadau a wnaed yn dilyn 'perygl o losgi' neu oherwydd trais domestig, am resymau diogelwch amlwg.

Parhawyd i ddarparu ymyriadau pwrpasol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned, gan cynnwys gosod offer arloesol fel Stoveguards, sef teclyn sy'n diffodd pŵer popty er mwyn atal tân a hynny trwy synhwyro gwres neu gyfuniad o wres a mygdarthau coginio.

Roedd un o'n mentrau ymgysylltu diogelwch tân niferus eleni yn cynnwys hyrwyddo ein rhif testun newydd 07507 303678, a oedd yn cyd-daro â'r 'Diwrnod Pobl Hŷn' fel ffordd amgen i bobl gofrestru cais am Archwiliadau Diogel ac Iach.

Caiff Archwiliadau Diogel ac Iach eu hyrwyddo'n rheolaidd trwy ein gwefan, trwy daflenni ac ar ein cyfryngau cymdeithasol drwy'r ymgyrch #profiddyddmawrth. Mae'r cyfle i dderbyn yr archwiliadau hyn yn ddwyieithog hefyd yn cael ei hyrwyddo i'n cymunedau.

Mae Grŵp Llywio Ymgyrch sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth yn gweithio i hyrwyddo ymgyrchoedd sydd â'r nod o gynnal diogelwch y cyhoedd yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwaith atal ac amddiffyn – mae hyn yn cynnwys hyrwyddo archwiliadau diogel ac iach ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o sut i helpu'r rhai sy'n fwy agored i niwed i gadw'n ddiogel ac i barhau i fod yn berchen larymau mwg.

### **Cam gweithredu 3: cefnogi asiantaethau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig.**

Mynychwyd cyfanswm o 234 o wrthdrawiadau ar y ffyrdd yn ystod y flwyddyn.

Fis cyn hyrwyddo 'Ymgyrch Darwin', ymgyrch sy'n gweithio gyda phartneriaid i leihau'r risg o farwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â beiciau modur, aethom i achos o Wrthdrawiad ar y Ffordd difrifol ger Llanrwst; roedd dau feiciwr modur yn rhan o'r digwyddiad hwn a bu un ohonynt farw wythnos yn ddiweddarach, tra bod y llall wedi dioddef anafiadau sydd wedi newid ei fywyd. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar lwybrau beicio poblogaidd yng Nghymru a'i nod oedd chwalu rhwystrau â beicwyr modur drwy ymgysylltu a thrafod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a chodi ymwybyddiaeth o brif achosion Gwrthdrawiadau ar y Ffyrrd angheuol. Mae'r neges 'Pump Angheuol' yn canolbwyntio ar 'Peidiwch ag yfed a gyrru, Arafwch, Peidiwch â bod yn ddiotal, Gwisgwch eich gwregys diogelwch, a Diffoddwch eich ffôn symudol'. Un enghraifft o'r gwaith hwn oedd lansio ffilm diogelwch ffyrdd bwerus yn 2022 yn adrodd hanes merch ifanc a laddwyd mewn Gwrthdrawiad ar y Ffyrrd yng Ngogledd Cymru.

Mae 'Stori Olivia', ffilm addysgol, yn ymwneud â merch ifanc a laddwyd yn drychinebus mewn Gwrthdrawiad

ar y Ffyrdd; cyflwynwyd y ffilm mewn digwyddiad arbennig yn Rhuthun lle rhannwyd y neges bwerau ynghylch diogelwch ffyrdd gyda'r gymuned leol am y tro cyntaf. Yna, ymddangosodd y stori ar raglen 'One Show' BBC1 ac fe'i defnyddiwyd gan ein haddysgwyr a'n staff atal mewn ysgolion a cholegau er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r neges hon ynghylch diogelwch bellach wedi'i rhannu â thros 2,500 o bobl ifanc; rydym wedi cymryd yr awenau i'w chyflwyno i bob coleg, tra bydd Heddlu Gogledd Cymru yn annerch pob ysgol uwchradd yn ardal ein Gwasanaeth.

Mae Stori Olivia wedi cael ei defnyddio i gynorthwyo i addysgu gyrrwyr am ganlyniadau angheuol goryrru neu beidio â thalu sylw wrth yrru – mae hyn yn hollbwysig ymysg gyrrwyr iau gan ei bod yn hysbys bod gyrrwyr 16-24 oed yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

I gydnabod llwyddiant Stori Olivia, bydd staff yn mynd i Dŷ'r Senedd yn San Steffan ym mis Gorffennaf 2023, pan fydd mam Olivia ac Aelod Seneddol yn annog pobl ifanc i osod 'blychau du' yn eu ceir er mwyn helpu i atal damweiniau yn y dyfodol, diolch i well ymwybyddiaeth gyrrwyr.

#### **Cam gweithredu 4: gwreiddio arferion diogelu mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd ac mae'r rhain yn cyd-fynd â chanllawiau a pholisi cenedlaethol.**

Rydym yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth deddfwriaethol a bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu priodol, tra bod cynnwys yr wybodaeth mewn atgyfeiriadau wedi gwella. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o hyfforddiant staff er mwyn nodi pa aelodau staff oedd angen cyfarwyddyd ar Lefelau tri a phedwar ac mae hyfforddiant yn cael ei gynllunio ar gyfer y rhai a nodwyd.

Wrth i ni barhau i gyfeirio oedolion a phlant at dimau diogelu awdurdodau lleol, rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr atgyfeiriadau a wneir ar gyfer oedolion a phlant; mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth parhaus staff GTAGC yn cyfrannu at y cynnydd hwn.

Bydd y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cael ei deddfu'n gyfreithiol cyn bo hir, ac mae'r Gwasanaeth yn 'awdurdod penodedig' gyda dyletswydd i gynorthwyo i leihau Trais Difrifol yng Ngogledd Cymru.

O'r 1<sup>af</sup> o Ragfyr 2022, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i sicrhau bod larwm mwg gwifredig sy'n gweithio yn cael ei osod ar nenfwd pob llawr ym mhob eiddo ar rent. Er mai cyfrifoldeb y landlord yw hyn, rydym wedi darparu arweiniad ar y math o larwm mwyaf priodol ar gyfer yr eiddo.

Mae system atgyfeirio wedi'i datblygu ledled Cymru i atgyfeirio landlordiaid at Rentu Doeth Cymru, a fydd wedyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

#### **Cam gweithredu 5: parhau i ddatblygu a darparu ymyriadau ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithgareddau wedi'u targedu.**

Parhawyd i ddarparu cyrsiau Ffenics ledled Gogledd Cymru; mae'r cyrsiau hyn (sydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed) wedi'u cynllunio i annog nid yn unig ysbryd cymunedol a datblygiad personol (er enghraifft hyder, gwaith tîm ac ymddiriedaeth) ond hefyd ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd ac yn y cartref trwy weithgareddau galwedigaethol.

Parhaodd ein haddysgwyr gyda sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gyfer pobl ifanc, gan ymweld â'r mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd Gogledd Cymru. Dros y flwyddyn, rhoddodd ein haddysgwyr gyngor diogelwch tân a allai achub bywydau i dros 18,000 o blant ysgol.

Disgwylir i brosiect cydweithredol Cymru gyfan o'r enw Staywise Cymru gael ei gwblhau yn ystod mis Mai

2023. Dyma benllanw blynyddoedd o waith paratoi i ddwyn y prosiect i ffrwyth; bydd gwefan newydd yn cynnig adnoddau y gellir eu lawrlwytho gan ysgolion, athrawon a phobl ifanc, a bydd wedi ymrwymo i achub bywydau trwy addysgu.

Parhawyd i ddarparu rhaglenni Cadetiaid Tân rheolaidd bob wythnos ar draws Gogledd Cymru; mae Cadetiaid Tân yn gynllun addysgol sefydliad ieuenctid sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Nod y cynllun yw creu cymunedau mwy diogel a chryfach drwy ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth unigolion ynghylch eu cymuned er mwyn gwella eu sgiliau dinasyddiaeth. Er i nifer yr unedau Cadetiaid Tân ostwng oherwydd Covid-19, braf yw gweld cynnydd mewn diddordeb, gydag uned newydd yn agor yn 2023 yng Ngorsaf Dân y Bala.

Gwnaethom barhau ein cysylltiad blynyddol â'r ymgyrch BANG (Be a Nice Guy), gan weithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn i bobl ystyried sut maen nhw'n dathlu Calan Gaeaf. Canolbwytwyd ar atgoffa rhieni i amddiffyn eu plant rhag y risg tân a berir gan ambell wisg ffansi.

### **Cam gweithredu 6: gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed.**

Mae gan y Gwasanaeth dri Rheolwr Partneriaeth ymroddedig ar draws y Gwasanaeth sy'n mynd ati'n rhagweithiol i feithrin a datblygu perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau partner i gynorthwyo ac adnabod y bobl fwyaf bregus yng nghymunedau Gogledd Cymru, megis y rhai sy'n dioddef o ddementia, pobl hŷn a'r rhai sydd mewn mwy o berygl yn gyffredinol o dân yn y cartref. Yn aml, pan fo angen, sefydlir cytundeb rhannu data i ffurfioli ac egluro cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddwy asiantaeth. Pan fo angen rhannu gwybodaeth ddwyffordd (h.y. bydd yr asiantaeth bartner eisiau ymateb), yna bydd angen i ni sefydlu cytundeb llawer manylach o'r enw Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP).

Un enghraifft o'r fath yw cefnogi'r cytundeb parhaus gyda'r Groes Goch Brydeinig mewn perthynas â'i rhaglen gymorth 'Paratoi, Ymateb, Adfer'; mae'r cytundeb yn caniatáu i'r Groes Goch Brydeinig ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i unigolion yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau argyfwng. Eleni gwelwyd ail gerbyd yn cael ei leoli yn ardal ddwyreiniol y Gwasanaeth er mwyn gwella cefnogaeth ymhellach i gymunedau Gogledd Cymru.

### **Cam gweithredu 7: gweithredu'r datblygiadau a'r uwchraddiadau technolegol diweddaraf er mwyn gwella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch.**

Mae parhau i weithredu Microsoft 365 wedi gweld mudo data o'n canolfan ddata i'r cwmwl, gan ddod ag effeithlonrwydd o ran defnydd ynni'r ganolfan ddata. Mae'r data hwn felly hefyd wedi dod yn fwy hygyrch i staff symudol, gan wella effeithlonrwydd ar unwaith a, thrwy sicrhau bod gwybodaeth diogelwch ar gael yn y fath fodd, wella diogelwch y cyhoedd. Mae gan Microsoft 365 fuddion diogelwch yn ei ddulliau dilysu aml-factor ac mae symud ein gwefannau hanfodol o dan yr amlapio dilysu hwn wedi gwella ein hagwedd o ran diogelwch.

Gwnaethpwyd gostyngiadau pellach yn nefnydd pŵer y ganolfan ddata trwy amnewid offer gyda thechnoleg fodern mwy ynni-effeithlon, yn ogystal â thrwy gyfuno gwasanaethau ar ddyfeisiau pwrpasol ar un plattform.

Mae amnewid ein technolegau terfynell data symudol (tabled glyfar electronig wedi'i gosod ar beiriannau tân) wedi arwain at lai o alw am drydan a thanwydd i gynnal yr offer, ynghyd â gwelliannau sy'n lleihau'n sylweddol yr amser a dreulir yn cefnogi'r dyfeisiau hyn yn gorfforol ac yn rhithwir. Mae'r feddalwedd sy'n cael ei chynnal ar y dyfeisiau hyn hefyd wedi'i hadnewyddu, sy'n gwneud mynediad at wybodaeth risg a diogelwch yn gyflymach ac yn fwy diweddar.

Yn olaf, mae dileu systemau ffôn desg a mudo'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau llais i ffonau meddal a gefnogir gan y cwmwl wedi gwella effeithlonrwydd staff trwy'r polisi gweithio ystwyth, yn ogystal â dod â manteision cost sylweddol.

### **Cam gweithredu 8: gweithredu canfyddiadau ymchwiliad tân ac adolygiad Tŵr Grenfell er mwyn lleihau'r risg i drasiedi o'r fath ddigwydd yng Ngogledd Cymru.**

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y broses o ddeddfu ar gyfer newidiadau a ddaeth yn sgil y tân yn Nhŵr Grenfell a ddigwyddodd ar y 14<sup>eg</sup> o Fehefin 2017, gan annog grwpiau lefel uchel i edrych ar yr heriau a nodwyd yn ei phapur gwyn. Gallwn ddylanwadu ar hyn drwy weithgor Cymru Gyfan drwy barhau i ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â'r newidiadau gofynnol yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu cyflwyno drwy'r broses a ddisgrifir uchod. Mae'r ymgynghoriadau yn eang eu cwmpas a byddant yn cael effaith fawr ym mhob agwedd ar ddiogelwch tân.

Rydym hefyd wedi ymateb yn anffurfiol i'r Cynghorydd Tân ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

Rydym yn parhau i gefnogi eiddo ledled Gogledd Cymru yn eu hymdrechion i leihau'r risgiau tân sy'n bresennol; gwneir hyn trwy addysg, archwilio a hysbysiadau ffurfiol.

### **Cam gweithredu 9: cyflwyno mwy o gerbydau trydan ecogyfeillgar er mwyn hyrwyddo aer o ansawdd gwell a lleihau allyriadau carbon.**

Dyfarnwyd grant cyfalaf i ni gan Lywodraeth Cymru i osod 34 o wefrwyr cerbydau trydan mewn 22 lleoliad o amgylch ardal y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cefnogi ein fflyd drydan sy'n cynyddu ac rydym yn archwilio ymarferoldeb caniatáu i staff ac asiantaethau partner gael mynediad i'n rhwydwaith gwefru i adennill costau.

Yn ogystal, mae'r buddsoddiad hwn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gynyddu ein fflyd cerbydau trydan yn y dyfodol, gan ein bod bellach wedi ymrwmo i beidio â phrynu ceir a faniau tanwydd petrol a disel o 2025 ymlaen.

### **Cam gweithredu 10: cyflawni yn erbyn y strategaeth ar gyfer disodli'r system gorchymyn a rheoli, a ddisgwylir yn 2022-2026. Bydd hyn yn sicrhau bod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Gwasanaeth mewn ymateb brys.**

Symudwyd y Gwasanaeth i'r System mobileiddio bresennol ym mis Mawrth 2017, gan ymgymryd â chytundeb pum mlynedd gydag estyniad dewisol o ddwy flynedd. Oherwydd diffyg staffio, cytunwyd i ohirio'r prosiect hwn am gyfnod o 12 mis ac ymestyn y cytundeb presennol. Fodd bynnag, ymgwymerwyd â gwaith i sicrhau cytundebau yn uniongyrchol gyda'r prif gyflenwr a fydd yn sicrhau, pan fyddwn yn agor i dendr, bod gan unrhyw gwmnïau posibl lwyfannau cydnaws â nhw yn ogystal â chwrdd â'n gofynion penodol.

### **Cam gweithredu 11: hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth iechyd a llesiant i staff y Gwasanaeth a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a ffitrwydd ar gyfer darpar recriwtiaid.**

Mae'r tîm Iechyd, Ffitrwydd a Lles yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo arferion iechyd da ledled ein



sefydliad. Maent yn rhannu ryseitiai iach yn rheolaidd yn ogystal â sesiynau ymarfer corff hawdd eu dilyn, ac yn codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd iechyd a llesiant gan gynnwys diwrnod 'Amser i Siarad', wythnos 'Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl', a diwrnod 'Atal Hunanladdiad y Byd'. Mae eu dull yn cwmpasu ffocws cyfannol ar faeth, ymarfer corff, cwsg, hydradu, osgo, cymeriant alcohol, meddyginiaeth, ysmegu a ffactorau eraill sy'n effeithio ar lesiant corfforol a meddyliol.

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r tîm yn cynnal gweithgareddau i hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a llesiant; roedd y rhain yn cynnwys Cystadleuaeth Camu, grŵp trafod Menopos, Her Eithaf Safle Tân, cyfarfod grŵp cymorth Parkinson's, a thaith gerdded Alzheimer's Dementia. Nod y mentrau hyn oedd ymgysylltu â gweithwyr, codi ymwybyddiaeth, ac annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol.

Gwnaed newidiadau hefyd i'n Hadolygiadau Iechyd a Ffitrwydd Blynyddol, gydag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n pwysleisio preifatrwydd, cyfrinachedd, a chyngor wedi'i deilwra. Rydym wedi datblygu rhaglenni ymarfer corff pwrpasol ac adnoddau ategol sy'n cyflawni nodau ac anghenion gweithwyr unigol. Mae fideos ffitrwydd a recordiwyd ymlaen llaw ar gael ar ein sianel YouTube yn cynnig opsiynau ymarfer cyfleus a hygyrch. Rydym yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol trwy deithiau cerdded llesiant lleol a chydweithio â sefydliadau amrywiol.

Rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Staff sy'n Rhieni a Gofalwyr newydd er mwyn cysylltu cydweithwyr a darparu arweiniad a chefnogaeth i aelodau staff sy'n rhieni neu ofalwyr. Mae llawer o aelodau staff wedi dangos diddordeb mewn dod at ei gilydd i rannu cyngor a mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau rhianta a gofalu. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r bwriad o drefnu gweithgareddau cymdeithasol, ac yn gweithredu fel gweithgor i gefnogi ein Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bwriad y Rhwydwaith yw tynnu sylw at y gefnogaeth a'r arweiniad perthnasol sydd ar gael i gynorthwyo staff i lywio eu rolau fel rhieni a gofalwyr, gan feithrin cymuned gefnogol o fewn y Gwasanaeth.

Mae ein dull o hyrwyddo iechyd a llesiant drwy ddigwyddiadau ymwybyddiaeth, cymorth llesiant, adolygiadau wedi'u teilwra a gweithgareddau corfforol yn dangos ein hymrwymiad i gynnal gweithlu heini ac iach. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin diwylliant o lesiant, a darparu adnoddau a chymorth angenrheidiol i'n staff.

### **Cam gweithredu 12: cyflwyno hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddiweddarau'r holl staff, gyda hyfforddiant uwch ar gyfer staff diogelwch cymunedol rheng flaen.**

Rydym yn parhau i hyfforddi a datblygu ein staff yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Hyfforddi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; mae hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant mwyaf priodol yn cyfateb â staff mewn rolau amrywiol ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i wneud gwahaniaeth.

Rydym yn parhau i gefnogi Cymorth i Ferched Cymru a'u partneriaid, Cymorth i Ferched Thrive, Threshold DAS, Cymorth i Ferched Abertawe, DASU, Cymru Ddiogelach, DAS Gorllewin Cymru, RASAC a Bawso yn eu hymdrechion i barhau i gyflawni hyfforddiant Gofyn a Gweithredu tan fis Mawrth 2025. Rydym wedi ymgysylltu â'r partneriaid hyn i gefnogi datblygu cynnwys hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant parhaus, yn ogystal â darparu hyfforddiant i staff newydd sefydliadau perthnasol.

Ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, dangosodd ein staff eu cefnogaeth trwy gymryd rhan mewn fideo a rennir ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mynychodd ein staff gynhadledd 'Pawb yn Un' yng Nghyffordd Llandudno, digwyddiad pwysig a ddaeth ag asiantaethau a sefydliadau ynghyd i fynd i'r afael â thrais domestig

a chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru. Mae ein staff wedi cael eu hannog i ddod yn Llysgenhadon neu Hyrwyddwyr Rhuban Gwyn, gan weithio'n frwd i frwydro yn erbyn trais gwrywaidd yn erbyn menywod ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Mae Diwrnod y Rhuban Gwyn yn cyd-daro â dechrau Cwpan y Byd dynion FIFA ac felly'n tynnu sylw at yr ymdrech ar y cyd i ddod â thrais yn erbyn menywod a merched i ben. Drwy ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo'r achos hollbwysig hwn, rydym yn cyfrannu tuag at greu cymunedau mwy diogel i bawb.

DRAFT

## **AMCAN 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch**



### **Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**



Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn hynod bwysig i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn. Bu'r Awdurdod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner drwy gydol 2022-23 o amgylch ardaloedd wedi'u targedu er mwyn cynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysg, gan eu galluogi i ddod yn fwy gwydn mewn argyfyngau.

Mae'r risgiau sy'n wynebu cymunedau yn parhau, ac yn 2022-23 parhaodd yr Awdurdod i ymrwymo i weithio gyda phobl a'u cefnogi i ddod yn fwy gwydn. Gan gydweithio'n agos â phartneriaid, parhaodd yr Awdurdod i sicrhau bod neges gydgysylltiedig yn cael ei chyfleu, nid yn unig am ddiogelwch ond hefyd o ran amrywiaeth o fentrau eraill a gynlluniwyd i wella llesiant y gymuned gyfan.

### **Cam gweithredu 1: gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr / porwyr, i nodi lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd mewn mwy o berygl o danau awyr agored / glaswelltir a helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys.**

Yn ystod yr haf, gweithiodd staff yn agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol ar fynyddoedd Llantysilio a Rhiwabon i ymgysylltu ag ymwelwyr er mwyn helpu i atal a lleihau nifer y digwyddiadau yn ystod y tywydd poeth, ac i godi ymwybyddiaeth o'r difrod y gall tanau yn yr awyr agored eu hachosi i dirwedd yr ucheldir. Roedd y gwaith diogelwch tân hwn yn cynnwys gweithio ochr yn ochr â Cheidwaid Sir Ddinbych i adnabod ardaloedd risg uchel.

Ym mis Tachwedd 2022, lansiodd gwasanaethau tân ac achub Cymru, dan arweiniad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ddinbych, fideo newydd ar faes y sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt i ddarparu canllaw cam wrth gam i dirfeddianwyr ar sut i losgi dan reolaeth, gyda'r nod o addysgu tîrfeddianwyr a helpu i leihau tanau yn yr awyr agored sy'n deillio o losgi dan reolaeth anghyfrifol.

Mae tân yn yr awyr agored bellach wedi'i gydnabod yn swyddogol fel prif berygl yn y Deyrnas Unedig, gyda'i gynnwys ar y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil.

### **Cam gweithredu 2: parhau i gyfrannu at ddatblygu cynllun tân yn yr awyr agored rhanbarthol amlasiantaethol.**

Cynhaliwyd digwyddiad amlasiantaethol hyfforddi hofrennydd tân yn yr awyr agored ym Maes Awyr Caernarfon i ddangos sut y gellid defnyddio hofrennydd; roedd hyn yn cynnwys llenwi bwced o'r tu ôl i argae cyfagos. Mae hyn wedi gwella ein mynediad at ddŵr wrth ddelio â thanau yn yr awyr agored.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhan o grŵp amlasiantaethol sy'n cydweithio â chwmni lleol 'Darlun TV' i gynhyrchu cyfres deledu o'r enw 'Snowdonia SOS' a fydd yn cael ei darlledu'r flwyddyn nesaf. Bydd y cyfle hwn yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i hyrwyddo negeseuon diogelwch tân, a bydd yn amlygu gweithio mewn partneriaeth yn ogystal ag edrych yn ôl ar yr heriau sy'n ymwneud â thanau yn yr awyr agored a recriwtio diffoddwyr tân ar-alwad.

Parhawyd i weithio gyda phartneriaid strategol, cymunedau ffermio a thirfeddianwyr i leihau digwyddiadau tân yn yr awyr agored ar draws y rhanbarth. Cafodd y DU a Gogledd Cymru haf poeth digynsail ynghyd â sychder, gyda'r tymheredd mewn rhai rhannau o'r DU yn uwch na 40 gradd Celsius. O ganlyniad, cafwyd cynnydd i 35 o danau awyr agored yn ystod y flwyddyn ac aeth cyfanswm o 108 o gerbydau i ddelio â'r tanau am dros 646 awr.

Cydweithiodd y Gwasanaeth â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru i greu Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac mae eisoes wedi drafftio Siarter Tanau Gwyllt Cymru Gyfan. Mae gan y Bwrdd bartneriaid strategol allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Dywydd a Gwasanaethau Heddlu Cymru sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr, ffermwyr a rheolwyr tir i helpu i leihau tanau awyr agored yn genedlaethol ac yn lleol. Rydym yn parhau i fynychu marchnadoedd ffermwyr ac yn defnyddio negeseuon cyfryngau a fideos ar nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ac addysgu ffermwyr a thirfeddianwyr fel ei gilydd.

Lansiodd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru fideo newydd yn y Ffair Aeaf yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Tachwedd i roi canllaw cam wrth gam i dirfeddianwyr ar sut i losgi dan reolaeth yn ddiogel. Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddfrodi miloedd o hectarau o dir cefn gwlad, manau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt. Mae criwiau tân ledled Cymru eisiau parhau i weithio gyda chymunedau lleol, ffermwyr a thirfeddianwyr i amddiffyn ein tirwedd werthfawr yng Nghymru.

### **Cam gweithredu 3: meithrin cydberthnasau â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd a grwpiau achub rhag llifogydd a dŵr mewndirol i wella galluoedd asiantaethau ar y cyd i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan lifogydd.**

Llwyddodd chwe aelod o staff o bob rhan o'r Gwasanaeth i gwblhau cwrs hyfforddi yn Glasgow a oedd yn edrych ar dechnegau achub o gerbydau tanddwr. Rhoddodd y cwrs fewnwelediad go iawn i'n Hyfforddwyr i dechnegau newydd, gyda phrofiad ymarferol mewn tymheredd dŵr heriol.

Mae Grŵp Rhybuddio a Hysbysu Gogledd Cymru yn rhoi cyfle gwych i weithwyr proffesiynol gyfathrebu a chydweithio ar draws sefydliadau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth; mae hyn yn helpu'r naill barti i hyrwyddo negeseuon y llall, ac i rybuddio a hysbysu'r cyhoedd ar adegau o argyfyngau megis llifogydd ac ati.

Prynodd yr Adran Gweithrediadau Technegol gamerâu tanddwr a pholion cyrraedd ar gyfer pob uned digwyddiad dŵr. Mae hyn yn dilyn derbyn nodyn gweithredu gan Grŵp Defnyddwyr Dysgu Gweithredol Cenedlaethol y Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid Tân, sy'n ymwneud â diffoddwyr tân yn rhoi eu hunain mewn perygl trwy geisio chwilio o dan wyneb y dŵr heb yr offer a'r cymwysterau angenrheidiol. Bydd yr offer hyn yn gwella diogelwch diffoddwyr tân yn fawr wrth i ni symud ymlaen.

### **Cam gweithredu 4: Gweithio ar y cyd â chymunedau a diffoddwyr tân rhan amser i wella gwytnwch gofal tân yn eu hardaloedd.**

Mynychodd staff, a chymryd rhan mewn rhediadau parc lleol a digwyddiadau ffitrwydd eraill i helpu i hyrwyddo recriwtio diffoddwyr tân; ymhlith y rhediadau parc a fynychwyd roedd y rhai a gynhaliwyd yng Nghastell Penrhyn, Bangor, Parc Gwepa, Glannau Dyfrdwy, Conwy, Coedwig Niwbwrch, Ynys Môn ac Erddig, Wrecsam.

Yn ogystal â'r ffenestr recriwtio diffoddwyr tân llawn amser ym mis Ebrill 2022, parhawyd i hysbysebu cyfleoedd diffoddwyr tân ar-alwad trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd Diwrnodau Blasu yng Ngorsaf Dân y

Rhyl i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael; roedd y rhain yn agored i grwpiau a nodwyd oedd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y Gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys menywod a phobl LGBTQ+, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Targedwyd ardaloedd allweddol gorsafoedd tân gan dîm recriwtio pob ardal er mwyn edrych ar sut i annog ceisiadau addas gan ystod o ymgeiswyr i wella gwytnwch y gofal tân yn yr ardal benodol honno.

Mae cyfleoedd diffoddwyr tân ar-alwad yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd drwy wefan y Gwasanaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, gan dynnu sylw at sut brofiad yw bod yn ddiffoddwr tân ar-alwad, sut y gall pobl helpu i ddiogelu eu cymunedau, a chyfraniad pwysig cyflogwyr lleol wrth ganiatáu i'w staff weithredu fel diffoddwyr tân ar-alwad.

### **Cam gweithredu 5: cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella cyfathrebu ac integreiddio ymhellach gyda phartneriaid.**

Mae'r holl ddefnyddwyr wedi cael eu mudo'n llwyddiannus i'r fersiwn cwmwl o Microsoft 365 ac mae diogelwch TGCh wedi cynyddu ers cyflwyno Dilysu Aml-ffactor, gan ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr at systemau gwaith trwy eu dyfeisiau personol. Cynigir hyfforddiant aml-ddull i'r holl staff sy'n defnyddio MS Teams ar hyn o bryd er mwyn cefnogi trosglwyddiad esmwyth i'r feddalwedd newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu mewnrwyd Gwasanaeth hawdd ei ddefnyddio a fydd hefyd yn hygyrch i staff sy'n gweithio gartref neu i ffwrdd o'r swyddfa; bydd yn cynnwys tudalennau gwybodaeth cyfeirio cyflym yn ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a Llesiant Gweithwyr.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio hefyd ar lansio mewnrwyd newydd i staff a fydd yn helpu i wella cyfathrebu ar draws pob ardal o'r Gwasanaethau a'r holl systemau dyletswydd. Bydd y fewnrwyd newydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2023.

### **AMCAN 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael**



**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**



O ystyried y cefndir o ansicrwydd ariannol, yr argyfwng costau byw, chwyddiant cynyddol a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân ar-alwad.

Mae'r Awdurdod wedi dechrau nifer o adolygiadau i gefnogi'r Gwasanaeth i weithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl; un adolygiad o'r fath fydd yr 'Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys' a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2023-24.

#### **Cam gweithredu 1: darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.**

Parhaodd yr Awdurdod i fod yn ymrwymedig i chwarae ei ran wrth adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel. Mae'n cydnabod bod angen hyblygrwydd ac arloesedd i baratoi ar gyfer heriau ariannol yn y dyfodol, wrth ddal i allu cynnal cyflawni gwasanaeth.

Nododd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2022-23 ofyniad cyllideb net o £39.41m, o'i gymharu â £37.07m ar gyfer 2021-22; wedi'i ddatblygu ar sail darpariaeth bresennol y Gwasanaeth, gan gadw mewn cof yr angen i gadw'r cynnydd i awdurdodau cyfansoddol mor isel â phosibl. Ym mis Tachwedd 2021, bu aelodau'r Awdurdod Tân yn myfyrto ar rai heriau allweddol a amlygwyd drwy asesiad sefyllfa'r Prif Swyddog Tân newydd, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedi hynny ym mis Ionawr 2022 yn cynnwys cynnydd o £1.13m i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Er mwyn cynnal y gwasanaeth a ddarperir, cynhaliwyd sawl adolygiad yn ystod 2022-23 gan gynnwys adolygiad o danau gwyllt yn yr awyr agored, adolygiad o'r system dyletswydd rhan amser; dechreuodd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac mae'n dal i fynd rhagddo.

#### **Cam gweithredu 2: parhau i ddilyn effeithlonrwydd mewnol parhaus.**

Gweithredwyd amryw o arbedion costau yn ystod 2022-23 a oedd yn cynnwys:

- Parhau i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni er mwyn arbed ynni yn yr hirdymor.
- Cynyddu nifer y cerbydau trydan a hybrid plygio i mewn yn y fflyd er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd a hyrwyddo cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.
- Parhau i adolygu'r defnydd o systemau TGCh. Er enghraifft, mae staff bellach yn derbyn slipiau cyflog electronig yn lle fersiynau papur a bostiwyd i'w cyfeiriadau cartref, y defnydd o Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd a galwadau ffôn.

Yn ogystal â sicrhau bod y gyllideb refeniw yn cael ei rheoli'n ofalus, parhaodd yr Awdurdod i graffu ar ei raglen gyfalaf er mwyn sicrhau gwerth gorau. Roedd yr Awdurdod yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod ei asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol, a parhaodd i ddadansoddi'r rhaglen gyfalaf yn erbyn goblygiadau refeniw negyddol posibl.

### **Cam gweithredu 3: monitro cynnydd ail-integreiddio gwasanaethau ariannol a roddwyd yn flaenorol ar gyfundeib i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.**

Ail-integreiddiwyd yr holl wasanaethau ariannol yn llwyddiannus yn ystod mis Ebrill 2023, ynghyd â gweithredu'r system ariannol newydd; roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r Adran Cyllid a Chaffael er mwyn cyflawni'r llwyth gwaith cynyddol. Fel sy'n wir gyda chyrrff cyhoeddus eraill yn ardal Gogledd Cymru, mae wedi bod yn anodd denu ymgeiswyr ar gyfer y swyddi arbenigol sydd eu hangen, ac mae recriwtio yn parhau.

### **Cam gweithredu 4: adeiladu ar fesurau presennol i fonitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau.**

Ymgymerir â sicrwydd gweithredol criwiau tân gan y rheolwr dyletswydd hyblyg cyntaf sy'n bresennol (math o rota gweithio wedi'i staffio gan bersonél gweithredol) ac mae pob sicrwydd gweithredol yn cynhyrchu dychweliad sy'n cael ei ddadansoddi gan y tîm sicrwydd gweithredol. Ymdrinnir yn briodol â thueddiadau a materion a nodir er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i wella. Mae'r tîm sicrwydd gweithredol yn monitro digwyddiadau o bell hefyd, er mwyn sicrhau bod safon y negeseuon a'r modd yr ymdrinnir â materion cysylltiedig eraill yn briodol. Mae ystod o ôl-drafodaethau yn digwydd ar ôl digwyddiadau, gan gynnwys briff dwys cychwynnol ar ddiwedd y digwyddiad. Bydd ôl-drafodaeth strwythuredig yn digwydd ar gyfer digwyddiadau mwy a fydd yn cynnwys personél allweddol y Gwasanaeth i nodi meysydd arfer da a meysydd ar gyfer gwelliant posibl. Bydd digwyddiadau mwy sy'n cynnwys asiantaethau partner yn arwain at ôl-drafodaeth aml-asiantaeth wedi'i hwyluso gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a bydd y rhain yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio rhyngasiantaethol ac a yw egwyddorion Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys wedi'u cymhwyso'n gywir. Rhoddir sylw priodol i unrhyw faterion a nodir.

### **Cam gweithredu 5: datblygu model mwy hyblyg ar gyfer cyflawni hyfforddi a datblygu, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol er mwyn cefnogi anghenion diffoddwyr tân rhan amser / ar-alwad.**

Adolygodd y Tîm Hyfforddi a Datblygu eu cynnig hyfforddiant gweithredol yn 2022-23, gan feincnodi'r ddarpariaeth hyfforddi bresennol yn erbyn cymwyseddau craidd criwiau gweithredol. Mae'r model hyfforddi diwygiedig yn gweld cynnydd yn y capasiti hyfforddi i gyflawni hyfforddiant sy'n hanfodol i risg ar draws ystod o sgiliau tân ac achub.

Cefnogir y model hyfforddi gan strategaeth hyfforddiant gweithredol a chaiff ei ategu gan gynllun cyflawni hyfforddi tair blynedd sy'n nodi amserlen y cyrsiau hyfforddi gweithredol o 2023-24.

Nod y cynllun yw cyflwyno rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cynnwys cyrsiau cychwynnol newydd a chylch tair blynedd o gyrsiau diweddar. Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn, bu cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr gweithredol i alluogi cyflwyno cyrsiau datblygu newydd, diwrnodau hyfforddi meistrolig digwyddiadau, ac ailwampio systemau rheoli dysgu.

Anogir rheolwyr i ddefnyddio'r cynllun i nodi gofynion hyfforddi ac i ddewis dyddiadau hyfforddi ar gyfer eu staff. Bydd cyrsiau diweddar yn cael eu cyflwyno ar draws nifer o sgiliau craidd, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, deunyddiau peryglus, a gweithio o uchder. Mae hyblygrwydd hefyd wedi'i ystyried yn y cynllun hyfforddi i alluogi cyrsiau i gael eu cynnal yn lleol yn adeiladau'r Gwasanaeth, yn ogystal â dyddiadau ychwanegol ar y penwythnos a fydd yn ei gwneud yn haws i'n staff ar-alwad fynychu.

Mae'r cynllun newydd yn gam mawr ymlaen yn ein darpariaeth hyfforddi a datblygu; bydd y cynllun cynhwysfawr yn galluogi staff i nodi eu hanghenion hyfforddi a dewis y dyddiadau sy'n gweithio orau iddyn

nhw. Bydd y cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr gweithredol yn sicrhau bod yr wybodaeth yn effeithiol ac yn gyfredol, a bydd ailwampio'r systemau rheoli dysgu yn gwella'r cynnwys sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael i staff.

### **Cam gweithredu 6: canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y sicrwydd a ddarperir drwy'r System Dyletswydd Rhan Amser / ar-alwad (diffoddwyr tân ar-alwad).**

Mae dyfodiad y timau recriwtio ac argaeledd ym mhob ardal wedi darparu adnodd pwrpasol i ganolbwyntio ar y mater o recriwtio ac argaeledd. Mae'r Gwasanaeth yn gallu targedu ardaloedd penodol ar gyfer recriwtio, yn ogystal â nodi gofynion hyfforddi a datblygu allweddol er mwyn gwella argaeledd staff ar-alwad.

Yn ystod y flwyddyn, bu tîm o staff yn gweithio'n galed i gynhyrchu'r adolygiad o brofiad staff Dyletswydd Rhan Amser a gyhoeddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhan sylfaenol o gynllun busnes y swyddogaeth ymateb yn y flwyddyn 2023-24.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd y Gwasanaeth garreg filltir arwyddocaol lle cofnodwyd cynnydd net mewn sefydlu staff ar-alwad, gan roi tystiolaeth gadarnhaol i'r timau recriwtio ac argaeledd ym mhob ardal.

### **Cam gweithredu 7: adolygu Rheoli Parhad Busnes a gwella gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau ar raddfa fawr.**

Fe wnaeth gweithredu ein hailstrwythuro rheolaeth yn 2022-23 arwain at adolygiad graddfa gyflawn o'n cynlluniau parhad busnes ar draws pob adran, gan sicrhau y gall y Gwasanaeth weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl yn ystod cyfnodau o aflonyddwch posibl.

Fel gyda llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, roedd gweithredu diwydiannol posibl yn peri risg sylweddol o ran rheoli parhad busnes a oedd angen ei gynllunio yn ystod 2022-23. Yn dilyn pleidlais lwyddiannus gan Undeb y Brigadau Tân, rhoddodd y Gwasanaeth grwpiau Rheoli Parhad Busnes Aur ac Arian ar waith a chychwynnodd ar gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu diwydiannol ar raddfa fawr gan staff ar draws Gogledd Cymru. Er bod setliad cyflog cenedlaethol wedi osgoi gweithredu diwydiannol, roedd y Gwasanaeth wedi paratoi'n dda ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac mae'r cynlluniau'n parhau yn eu lle yn barod i'w gweithredu, pe bai gweithredu diwydiannol yn dod yn bosibilrwydd unwaith eto.

Ym mis Mawrth 2023, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn ymarfer Rheoli Parhad Busnes Cenedlaethol a hwyluswyd ar draws yr holl Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a Llywodraethau Cymru a Chenedlaethol. Roedd Ymarfer 'Mighty Oak' yn ymarfer tridiau o hyd i brofi ymateb y DU i Ddiffoddiad Pŵer Cenedlaethol. Er bod y canlyniadau a'r dysgu o'r ymarfer yn dal i gael eu datblygu gan yr hwyluswyr, mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar ddatblygiad ei hun o gynllun Rheoli Parhad Busnes ar draws y Gwasanaeth ar gyfer Diffoddiad Pŵer Cenedlaethol. Bydd hwn yn cael ei fireinio yn ystod 2023-24 fel ei fod yn barod i'w roi ar waith, pe bai senario'r ymarfer yn dod yn realiti.

Mewn perthynas â'n parodrwydd ar gyfer ymarfer ar raddfa fawr, mae'r crynodeb isod yn amlinellu rhai o'r gweithgareddau ymarfer amlasiantaethol a gwblhawyd yn 2022-23.

#### **Ymarfer Twnnel Conwy**

Manteisiwyd ar y ffaith bod y gerbyttfordd i gyfeiriad y gorllewin ar gau am wythnos er mwyn trefnu ymarfer hyfforddi amlasiantaeth ac ymweliad ymgyfarwyddo â'r twnnel. Rhoddodd hyn senario hyfforddi realistig i griwiau a chyfle i adolygu cynlluniau tactegol gweithredol ar gyfer y twnnel.



### **Ymarfer Porthladd Caergybi**

Cynhaliwyd senario hyfforddi i brofi ymateb gweithredol mewn lleoliad morwrol ym Mhorthladd Caergybi. Roedd ffocws penodol ar weithdrefnau offer anadlu a'r defnydd o'r Cwfl Mwg Drager.

### **Ymarfer Eithin**

Cynhaliwyd ymarfer ym Mangor a oedd wedi'i leoli mewn neuaddau preswyl i fyfyrwyr yn cynnwys bloc llety pedwar llawr.

### **Ymarfer Cyswllt**

Cynhaliwyd ymarfer diogelwch ac ymateb brys ar safle datgomisiynu Trawsfynydd, gan weithio gyda staff Magnox a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a oruchwyliodd y digwyddiad hyfforddi.

## **Cam gweithredu 8: Monitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a gynhelir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.**

Mae ffurfio a chynnal partneriaethau gyda gwasanaethau ac asiantaethau brys eraill yn ein galluogi i ymestyn ein negeseuon diogelwch i'r gymuned, ac yn helpu i hyrwyddo a chynnal ein proffil cymunedol.

Dyma rai enghreifftiau o'n partneriaethau sy'n gweithio fel hyn:

### **Heddlu Gogledd Cymru ac Ymgyrch Diopside – Cydweithio 5 Angheuol**

Cynhaliwyd Ymgyrch Diopside yn ardal y Rhyl, gyda Heddlu Gogledd Cymru yn stopio gyrwyr am oryrru, am beidio â gwisgo gwregys diogelwch, am ddefnyddio ffonau symudol a gyrru'n ddiogel / anystyriol. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, cynigiwyd i yrwyr fynychu cwrs ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd, tra bod eraill yn cael dirwyon a phwyntiau ar eu trwydded yrru.

### **GIG a Helpa fi i Stopio (mae 7.3% o danau damweiniol mewn cartrefi yn ymwneud â deunyddiau ysmegu)**

Eleni, fel rhan o fenter newydd, rhoddodd staff fanylion i ysmygwyr am y cymorth sydd ar gael am ddim gan arbenigwyr rhoi'r gorau i ysmegu lleol yn ystod ymweliadau archwiliadau diogel ac iach yn eu cartrefi. Yn ogystal ag effeithiau ysmegu ar eu hiechyd, mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r risgiau marwol yn y cartref, a sut y gall gwaredu deunyddiau ysmegu yn ddiogel arwain at dân, yn hawdd ac yn gyflym iawn.

### **Outside Lives Ltd**

Aeth staff i ddigwyddiad yn Sir y Fflint i ddathlu Wythnos Gofalwyr. Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) mewn partneriaeth ag Outside Lives Ltd, yn gyfle i ofalwyr di-dâl archwilio arferion llesiant newydd, a rhoddodd hyn gyfle i'n staff siarad â gofalwyr o bob rhan o'r rhanbarth.

## **Cam gweithredu 9: datblygu system rheoli asedau effeithiol sy'n hyrwyddo'r dyraniad adnoddau gorau posibl.**

Mae'r system rheoli asedau wedi cael ei hailwampio yn dechnolegol, gan gynnwys integreiddio â phrosesau rhanddeiliaid o adrannau eraill a datblygiad system i gyflymu'r broses o ddarganfod ac adennill asedau sydd wedi'u dyrannu i staff sydd wedi gadael y sefydliad.

Mae archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal, er mai dim ond ar sail manteisgar neu adweithiol y dechreuwyd arnynt, tra bod recriwtio staff TGCh yn parhau heb ei ddatrys.

## **Cam gweithredu 10: gweithredu canfyddiadau ymchwiliad ac adolygiad Tŵr Grenfell er mwyn lleihau'r risg i drasiedi o'r fath ddigwydd yng Ngogledd Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o ddeddfu ar gyfer newidiadau a ddaeth yn sgil digwyddiad Grenfell; mae'n annog grwpiau lefel uchel i edrych ar yr heriau a nodwyd yn y papur gwyn.

Gallwn ddylanwadu ar hyn drwy'r gweithgor Cymru gyfan, drwy barhau i ymateb i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â newidiadau sydd eu hangen yn ogystal â'r rhai a gyflwynir drwy'r broses a ddisgrifir uchod. Mae'r ymgynghoriadau yn eang eu cwmpas a byddant yn cael effaith sylweddol ym mhob agwedd ar ddiogelwch tân.

Rydym hefyd wedi ymateb yn anffurfiol i'r Cynghorydd Tân ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

Rydym yn parhau i gefnogi eiddo ledled Gogledd Cymru yn eu hymdrechion i leihau'r risgiau tân sy'n bodoli; cyflawnir hyn trwy addysgu, archwilio a rhoi hysbysiadau ffurfiol.

Mae'r holl gamau gweithredu o gam un ymchwiliad Tŵr Grenfell wedi'u cwblhau; mae'r Gwasanaeth wedi adolygu sut mae'n hyfforddi, paratoi a chyfathrebu rhwng safle'r digwyddiad a'r Ystafell Reoli.

## **AMCAN 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid**



### **Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**



Yn ystod 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau ynghylch y gwasanaethau y mae'n eu cyflawni.

Mae dull cydweithredol o weithio ar draws ein swyddogaethau ein hunain ac ar y cyd â'n partneriaid gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang yn ogystal â datblygu technegau arloesol a rhannu arferion gorau.

Ffocws arbennig eleni oedd gwella cyfathrebu â'n staff, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai a gyflogir o dan y system dyletswydd rhan amser (ar-aldad) a gweithredu'r canfyddiadau allweddol o'n harolwg staff Teulu Tân cyntaf un.

### **Cam gweithredu 1: codi ymwybyddiaeth am, helpu i atal ymosodiadau llosgi bwriadol a lleihau nifer y tanau bwriadol a galwadau diangen.**

Parhaodd Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i ymgysylltu â thimau plismona, gan gyflwyno'r ddogfen 'Angen Gwybod' yn rheolaidd ar sut i gysylltu â a sut i gyfeirio unigolyn at Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i bob Cwnstabl Heddlu newydd a recriwtiaid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol.

Gweithiodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol gyda phartneriaid amrywiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y tîm a nodi unrhyw fannau problemus. Fe wnaethom gofnodi a dadansoddi'r holl ystadegau tanau bwriadol i nodi unrhyw dueddiadau oedd yn dod i'r amlwg, a pha bartneriaid y mae angen i ni ymgysylltu â nhw, yn dibynnu ar y math o danau a throeddau a materion cysylltiedig yn y maes hwnnw. Aethom i bob cyfarfod Risg ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Oedolion sy'n Agored i Niwed ar draws ardal y Gwasanaeth, a chynhyrchwyd adroddiadau ar weithgarwch a gwaith y Tîm gyda phartneriaid yn y meysydd hynny a nodwyd.

Parhawyd i gynnal ymweliadau safle mewn eiddo adfeiliedig risg uchel ledled Gogledd Cymru, gan weithio gyda pherchnogion ac awdurdodau lleol i'w diogelu er mwyn helpu i leihau'r risg o danau bwriadol a'r risg i ddiogelwch y cyhoedd. Gwnaethom hefyd ymweld â busnesau y nodwyd eu bod mewn perygl o danau bwriadol.

Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn bwynt cyswllt ar gyfer pob atgyfeiriad risg uchel am fygythiadau i losgi, lladd neu niweidio pobl sy'n agored i niwed ledled Gogledd Cymru; daw'r atgyfeiriadau hyn gan wahanol bartneriaid gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Uned Diogelwch Cam-drin Domestig, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn rheoli atgyfeiriadau ac yn darparu ymyriadau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn lleihau tanau bwriadol pellach. Mae'r Tîm yn ymweld ag ysgolion i drafod canlyniadau Llosgi Bwriadol gyda grwpiau bach ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan.

Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol hefyd yn mynychu Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a chyfarfodydd Asesu Risg Amlasiantaeth; mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

## **Cam gweithredu 2: ymgysylltu â chyflogwyr, cymunedau lleol a'r rhai y mae tân a digwyddiadau brys eraill yn effeithio arnynt yn uniongyrchol i ddatblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd atal.**

Parhaodd y Gwasanaeth i gynnal cyfarfodydd deufisol gyda'r Groes Goch Brydeinig i adolygu digwyddiadau er mwyn gwella gweithio mewn partneriaeth. Ym mis Mehefin fe wnaeth y Groes Goch Brydeinig fynychu dau ddiwyddiad yng Ngogledd Cymru, roedd un ohonynt i ddarparu cefnogaeth i deulu mawr a oedd wedi cael eu gwneud yn ddiartref yn anfwriadol ar ôl tân yn y gegin. Buont yn cefnogi'r preswylwyr wrth iddynt gael eu hailgartrefu ac yn darparu bwyd brys, arian a dillad. Roedd yr ail achlysur wedi i dân yng ngofod y to adael teulu a'u ci gyda dim ond y dillad yr oeddent yn eu gwisgo. Ar yr achlysur hwn, cafodd y preswylwyr gartref am gyfnod byr gan ffrindiau a theulu, gyda chymorth ychwanegol gan y Groes Goch Brydeinig ar ffurf arian parod, dillad a nwyddau ymolchi brys.

Dywedodd staff y Groes Goch Brydeinig fod y gwirfoddolwyr wrth eu bodd bod Penaethiaid y Safle wedi gofyn iddynt fod yno a'u bod wedi eu rhoi ar waith. Aethant ymlaen i ddweud bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan Benaethiaid y Safle trwy weithredwyr yr Ystafell Reoli yn sicrhau bod gan y gwirfoddolwyr ymwybyddiaeth a mewnwleidiad sefyllfaol da ynghylch yr hyn oedd ei angen cyn iddynt gyrraedd.

## **Cam gweithredu 3: hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod ardaloedd lle mae'r risg fwyaf yn cael blaenoriaeth, er enghraifft tanau a achosir gan goginio.**

Eleni lanswyd ymgyrch newydd ar y cyd â'n cydweithwyr o Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru i ymateb i bryderon am ddiogelwch tân yn ystod yr 'Argyfwng Costau Byw'.

Erbyn Ionawr 2023 roedd disgwyl y gallai mwy na hanner cartrefi'r DU fod mewn 'Tlodi Tanwydd' ac mae hyn yn debygol o gynyddu'r risg o dân yn y cartref wrth i bobl chwilio am ffyrdd eraill o wresogi a goleuo eu cartrefi.

## **Cam gweithredu 4: cynnal cyfoesedd y cytundebau rhannu gwybodaeth presennol, a cheisio sefydlu cytundebau newydd lle bo'n briodol.**

Cafodd rheolwyr partneriaeth o bob rhan o'r gwasanaeth y dasg o fynd ar ôl cytundebau datgelu data gydag asiantaethau partner gan ddefnyddio'r templed cyffredinol sy'n sicrhau y cedwir at ofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf gan ei bod yn aml yn anodd annog partneriaid i lofnodi cytundebau, ond rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y cytundebau hyn yn cael eu llunio a'u llofnodi gyda'r bwriad o'u hychwanegu at Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae gwaith wedi'i gynllunio i adolygu cytundebau presennol ar eu dyddiad adnewyddu er mwyn eu huwchraddio i'r fformat diweddaraf. Bydd y gwaith hwn yn barhaus wrth i ni ddatblygu partneriaethau newydd, cau hen rai a chynnal cyfredoldeb cytundebau gweithredol.

Un enghraifft o'r fath oedd cwblhau cytundeb rhannu data newydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) er mwyn i ni ddarparu manylion cyfanredol a dienw am danau glaswelltir, coetir a chnydau. Bydd hyn yn caniatáu i ICC ddadansoddi'r data ar sail Cymru gyfan a bydd yn llywio'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'w defnyddwyr.

## **Cam gweithredu 5: cynnal arolwg iechyd a llesiant o'r holl staff, gan hyrwyddo gweithgareddau drwy'r Gwasanaeth cyfan.**

Rydym wedi gwneud ymdrechion sylweddol i hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a llesiant ein staff. Mewn cydweithrediad ag elusen Mind, fe wnaethom gefnogi wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Trefnodd ein

tîm iechyd, ffitrwydd a llesiant ymroddedig weithgareddau dyddiol ar blatfform Facebook Workplace, gan annog staff i flaenoriaethu eu hiechyd meddwl a darparu cefnogaeth i'r rhai a allai fod yn wynebu heriau. Fel rhan o'n hymrwymiad i lesiant gweithwyr, fe wnaethom gyflwyno'r Gronfa Calon wedi'i hailfrandio a'i diwygio, cronfa staff wirfoddol sy'n gweithredu'n annibynnol ond gyda'n cefnogaeth ni; nod y gronfa hon yw darparu cymorth emosiynol, corfforol, cymdeithasol ac elusennol i'n staff. Yn ogystal, rydym yn cynnig ystod o adnoddau i sicrhau llesiant ein gweithwyr; mae'r rhain yn cynnwys y Tîm Iechyd, Ffitrwydd, a Lles, Cefnogwyr Cydweithwyr, Hyrwyddwyr Golau Glas, Care First (Rhaglen Cymorth i Weithwyr), a Chaplan ein Gwasanaeth, sydd oll yn darparu cymorth cyfrinachol, cymorth iechyd meddwl ac arweiniad emosiynol.

Cefnogwyd diwrnod 'Amser i Siarad', gan bwysleisio pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â chychwyn sgysiau am lesiant. Amlygodd ein Cynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant effaith gadarnhaol estyn allan a siarad â rhywun, a sut i gael gafael ar gymorth ffurfiol ac anffurfiol. Drwy annog ein digwyddiad 'Paned a Sgwrs', mae gan ein staff gyfle i gysylltu ac ehangu eu rhwydweithiau o fewn y Gwasanaeth.

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Dynion yn Llangefni drwy ddod â staff o bob rhan o'r Gwasanaeth at ei gilydd. Dechreuodd y digwyddiad gyda ras parc 5km, gyda llwyddiant nodedig un swyddog tân yn rhedeg mewn cit tân llawn, ac aeth y bore yn ei flaen gyda sesiwn 'Paned a Sgwrs' yng Ngorsaf Dân Llangefni i hyrwyddo ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth o bryderon dynion, a phwysleisio pwysigrwydd llesiant iechyd meddwl. Daeth ein Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r digwyddiad a gwerthfawrogydd ei gefnogaeth yn fawr. Tanlinellodd y digwyddiad arwyddocâd gofalu am iechyd meddwl dynion a meithrin sgysiau agored.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cymerodd rhai o'n staff ran mewn digwyddiad LGBTQ+ ar-lein a gyflwynwyd gan y Rhwydwaith Trawsryweddol Unigryw. Rhoddodd y cwrs fewnwelediadau ac arweiniad gwerthfawr, gan rymuso cyfranogwyr i fod yn Gefnogwyr Pride Tân ac i gefnogi unigolion LGBTQ+ yn y gweithle. Roedd ei amcanion yn cynnwys gwella dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan Bobl Rhywedd Amrywiol, rhoi'r wybodaeth i gyfranogwyr i'w cefnogi a chydweithio â nhw, a sicrhau cydymffurfiaeth â hawliau cyfreithiol a dyletswyddau cydraddoldeb. Llwyddodd y digwyddiad i ddathlu'r profiadau a'r doniau unigryw y mae amrywiaeth rhywedd yn eu cynnig i'r gweithle wrth feithrin newid cadarnhaol mewn dealltwriaeth ac ymddygiad.

### **Cam gweithredu 6: cwblhau adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol.**

Cwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2021-22, gyda'r sylwadau canlynol.

Cyhoeddwyd cynllun Cyflawni Cyfathrebu Corfforaethol newydd ar gyfer 2021-24 yn dilyn adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol.

Mae'r cynllun cyflawni yn amlinellu'r cyfeiriad a'r fframwaith yn weithredol i gefnogi ac ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, a gwneud hynny'n glir ac yn effeithiol.

### **Cam gweithredu 7: adrodd ar y defnydd o ynni a lleihau nifer yr achosion o garbon yn adeiladau GTAGC, gan gynnwys datblygu cronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer prosiectau lleihau carbon yn y dyfodol.**

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau ac rydym bellach wedi cyflogi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i oruchwylio ein defnydd o ynni a'n hallyriadau carbon.

Rydym wedi paratoi Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod hyd at 2030 sy'n nodi sut y byddwn yn gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau, yn lleihau gwastraff ac yn lleihau ein hallyriadau carbon.

Rydym wedi datblygu adnodd dadansoddi defnydd ynni sy'n ein galluogi i gymharu effeithlonrwydd ynni ac allyriadau yn uniongyrchol ar draws ein hystâd gyfan, tra hefyd yn gwneud yn iawn am wahaniaethau o ran maint adeiladau a thywydd lleol. Gan ddefnyddio hyn, byddwn yn blaenoriaethu'r adeiladau sy'n perfformio waethaf er mwyn eu gwella.

Rydym wedi ymgysylltu â 'Re:Fit Cymru', darparwr fframwaith caffael a fydd yn ein cynorthwyo i nodi pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd gyfan a fydd, ar ôl ei osod, yn cael yr arbedion ariannol wedi'u gwarantu'n gytundebol gan y gosodwr. Byddwn yn ceisio benthycu'r arian i ariannu'r mesurau hyn yn ddi-log, gan ddefnyddio'r arbedion costau gwarantedig i ariannu'r ad-daliadau; bydd hyn yn ein galluogi i leihau ein defnydd o ynni ac allyriadau carbon heb effeithio ar gyllidebau mewn mannau eraill yn y Gwasanaeth.

### **Cam Gweithredu 8: datblygu arolwg treigl cyffredinol / annibynnol ar-lein sy'n adlewyrchu pob un o'r saith amcan corfforaethol y gellid eu defnyddio i gofnodi adborth gan yr holl randdeiliaid ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu.**

Ni chwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2022-23; fodd bynnag, gweithredwyd proses newydd ar gyfer cynllun adrannol yn ystod y flwyddyn ac mae'r holl amcanion perthnasol yn cael eu nodi o fewn y cynlluniau hyn. Bydd y cynlluniau'n cael eu hadolygu bob chwarter yn ystod 2023-24 i gasglu tystiolaeth yn erbyn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Blociau Adeiladu Gwasanaethau ac Amcanion y Cynllun Corfforaethol.

### **Cam gweithredu 9: gweithredu adolygiad dan arweiniad staff ynghylch profiadau staff a gyflogir o dan y System Dyletswydd Rhan Amser / Ar-Alwad.**

Yn ystod mis Ionawr 2023, cwblhawyd Adolygiad Profiad Staff y System Dyletswydd Rhan Amser. Roedd yr adolygiad hwn yn dwyn ynghyd brofiadau, meddyliau, syniadau a barn staff sy'n darparu gwasanaeth 'ar-alwad' mewn gorsafoedd ledled Gogledd Cymru.

Roedd tîm ymroddedig o bersonél y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gwblhau ymchwil, nodi canfyddiadau allweddol a chynnig argymhellion yn erbyn 10 trywydd ymholi allweddol a oedd yn ymwneud â:

- Talu a gwobrwyo staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Denu, dethol, recriwtio a chynefino staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Proses dyrchafu staff System Dyletswydd Rhan Amser
- Cadw staff a rheolwyr llinell leol
- Neilltuo amser ar gyfer hyfforddi
- Neilltuo amser ar gyfer gweinyddu
- Defnydd o sgiliau
- Ymgysylltu â phrif gyflogwyr
- Cydnabod cyfraniad a dathlu cyflawniad
- Gofynion adnoddau

Bydd y rhain nawr yn cael eu hadolygu gan Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a bydd cynllun gweithredol yn cael ei ddatblygu.

**Cam gweithredu 10: gweithio i gytuno ar gynllun gweithredu i ganolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol arolwg staff y Teulu Tân mewn perthynas â newid diwylliannol a newid arfaethedig i strwythur staff.**

Rhyddhawyd yr arolwg yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn 2021-22, gyda'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi a chynllun gweithredu wedi'i lunio a'i rannu gydag aelodau Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r gweithlu ehangach.

Yna darparwyd diweddariadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu gan ddefnyddio cyfres o ffeithluniau.

Bydd rhagor o wybodaeth nawr yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth ym mis Hydref i drafod sut y gellir diweddarau'r cynllun gweithredu a'i adolygu.

Mae gwaith paratoi eisoes wedi dechrau ar gyfer yr arolwg nesaf a fydd yn cael ei gyhoeddi yn niwedd 2023.

DRAFT

## AMCAN 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Parhaodd yr Awdurdod i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod, gan groesawu ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, awydd i ymdrechu am ragoriaeth, amddiffyn cymunedau a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sydd wedi'i ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith rheoli perfformiad datblygedig yn cefnogi rheolwyr i fodloni gofynion eu rolau.

### Cam gweithredu 1: recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus, llawn cymhelliant a dwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth wedi ailddechrau cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau recriwtio wyneb yn wyneb a ffeiriau swyddi a gynhelir ledled y rhanbarth. Mae'r digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ni ymgysylltu â cheiswyr gwaith, i hyrwyddo swyddi gwag presennol a rhai sydd i ddod, ac i ryngweithio â darpar ymgeiswyr. Mae digwyddiadau nodedig yn cynnwys ffeiriau swyddi Cymraeg eu haith ym Mangor, Dolgellau a'r Bala, yn ogystal â diwrnodau gyrfaedd ym Mae Colwyn, y Rhyl, Glannau Dyfrdwy, Llangollen a Wrecsam, gan roi sylw i ni ledled Gogledd Cymru.

Rydym wedi cymryd camau rhagweithiol i dynnu sylw at swyddi gwag ac i annog ceisiadau; enghreifftiau o hyn yw rhannu swyddi gwag ar brif dudalen Facebook y Gwasanaeth, ac ar grwpiau cyffredinol Gogledd Cymru a grwpiau swyddi sirol lleol ar y platfform. Ar ben hynny, rydym wedi creu tudalen benodol ar gyfer Gyrfaoedd Tân Gogledd Cymru ar Facebook sydd â nifer sylweddol o ddilynwyr. Yn nodedig, mae ein postiadau ar Facebook wedi cyrraedd miloedd o bobl ac wedi derbyn rhyngweithio sylweddol, gan arwain at fwy o welededd a diddordeb yn rolau'r Gwasanaeth. Fel rhan o'n strategaeth i arddangos yr ystod amrywiol o rolau o fewn y Gwasanaeth, rydym wedi cynhyrchu fideos sy'n cynnwys deiliaid presennol y swyddi; mae'r rhain yn rhoi cipolwg ar ddiwrnod arferol o fewn y rôl ac yn amlygu'r boddhad y mae unigolion yn ei gael wrth weithio i ni. Y nod yw denu darpar ymgeiswyr nad ydynt efallai wedi ein hystyried o'r blaen.

Mae'r Arbenigwyr Recriwtio Adnoddau Dynol (AD) yn chwarae rhan hanfodol yng ngrŵp Recriwtio ac Argaeledd y Gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar strategaethau recriwtio Ar-Alwad. Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth a thempledi Ar-Alwad i sicrhau cysondeb o ran brandio a negeseuon, gan eu halinio â chanllawiau sefydliadol. Yn yr un modd, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o lenyddiaeth recriwtio'r Llyfr Gwyrdd i wella ei effeithiolrwydd. Mae adnewyddu'r dogfennau hyn mewn fformat newydd yn eu halinio â thempledi polisi ac yn cyfathrebu ein gwerthoedd craidd yn effeithiol, gan hyrwyddo apêl ymhlith recriwtiaid newydd.

Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud diweddariadau amrywiol a gwelliannau i ddeunyddiau a phrosesau recriwtio. Mae llyfrynnau ymgeiswyr bellach yn cynnwys lluniau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein gweithwyr a'n rolau, er mwyn amlygu'r gwahanol gyfleoedd o fewn y Gwasanaeth a'u gwneud yn fwy deniadol. Mae dogfennau Rheolwr Llinell ar gyfer ymgeiswyr mewnol wedi'u diweddarau er mwyn casglu gwybodaeth fwy perthnasol sy'n ategu data AD presennol. Mae dogfennau cytundeb hefyd wedi'u diweddarau yn unol â deddfwriaeth, h.y. cydymffurfiaeth o ran fetio, DBS, hawl i weithio, hyfforddiant, a chymwysterau.



Mae'r Arbenigwyr Recriwtio AD yn mynychu ac yn cyfrannu at y grŵp iaith Gymraeg, gan symleiddio gofynion hyfedredd yn y Gymraeg ar gyfer gweithwyr presennol, recriwtiaid newydd ac ymgeiswyr. Mae fideos llawn gwybodaeth sy'n cynnwys aelodau o staff yr Ystafell Reoli a Swyddogion Cydymffurfiaeth yn dangos y defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn rolau amrywiol, yn gwasanaethu dibenion recriwtio ac yn cael eu dangos yn ystod digwyddiadau ysgol. Mae diweddariadau i'r llyfryn gwybodaeth recriwtio yn egluro gofynion y Gymraeg, gan ddileu camsyniadau a sicrhau dealltwriaeth gywir. Mae rhestr wirio wedi'i gweithredu er mwyn cwrdd yn gyson â gofynion dwyieithrwydd y Gwasanaeth ar gyfer rolau a hysbysebiri.

Mae'r Arbenigwyr Adnoddau Dynol yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau ac yn cynnal sesiynau Siop Siarad. Ysgogwyd y fenter hon gan yr arolwg staff Teulu Tân a'i nod yw hyrwyddo sgysiau dwy ffordd a rhoi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, ac i amlygu safbwyntiau a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr. Rhennir adborth o'r sesiynau hyn gyda'r grwpiau / pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt gael eu hystyried ac i godi ymwybyddiaeth.

## **Cam gweithredu 2: datblygu arferion cyflogaeth gyda'r nod o gynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad i waith a blaenoriaethu cam gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.**

Mae'r Adran AD bellach yn darparu gwybodaeth reoli i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gynllunio'r gweithlu; mae'r wybodaeth hon yn cynnwys data ar niferoedd staffio, dechreuwyr, ymadawyr, a metrigau sy'n ymwneud â recriwtio, ac mae'r Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol sydd wedi'i ddiweddarau yn dibynnu ar yr wybodaeth hon i lywio ei benderfyniadau. Rydym wedi gwella'r broses o gasglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod y cam recriwtio, a bydd hyn yn helpu i nodi tueddiadau a monitro grwpiau penodol sy'n wynebu heriau yn y broses ymgeisio er mwyn gallu cymryd camau cadarnhaol wedi'u targedu.

Yn ystod y chwarter cyntaf ac ail, cynhaliodd y Gwasanaeth recriwtio ar gyfer Diffoddwyr Tân System Dyletswydd Amser Cyflawn, gan gynnal cyfanswm o 120 o gyfweiliadau o bell trwy Zoom. Derbyniwyd cyfanswm o 796 o geisiadau am y swyddi; ymhlith yr ymgeiswyr, roedd 15% yn fenywod a 3% o gefndiroedd BME, sy'n dangos rhywfaint o amrywiaeth yn y pwll ymgeiswyr. Mewn ymdrech i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cynhaliwyd sesiynau rhagflas cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022 ac roedd y sesiynau hyn yn targedu unigolion o gefndiroedd amrywiol yn benodol, gan gynnwys cyfranogwyr benywaidd, BME a LGBTQ+. Dros gyfnod o dair sesiwn, daeth 19 unigolyn i'r sesiynau blasu; Yn wefreiddiol, aeth 16 o'r cyfranogwyr hyn ymlaen i wneud cais am rôl Diffoddwr Tân System Dyletswydd Amser Cyflawn, a chwblhaodd chwe ymgeisydd bob cam o'r broses recriwtio yn llwyddiannus. O'r ddau gyflenwad, mae 12 o'r ymgeiswyr penodedig yn fenywod, un yn BAME, tri yn LGBTQ+, saith yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae dau â chyflyrau niwroamrywiol datganedig. Mae pump hefyd yn weithwyr presennol y gwasanaeth, mae pedwar yn cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar-alwad ac un yn cael ei gyflogi mewn rôl gefnogi. Mynychodd pump o'r ymgeiswyr a benodwyd y sesiynau gweithredu cadarnhaol cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022 hefyd.

Felly er mwyn deall yn well a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebiri gan ymgeiswyr di-waith, mae'r Arbenigwyr AD wedi bod yn mynychu digwyddiadau recriwtio ac yn meithrin perthynas â'r sectorau perthnasol. Mae'r ymrwymadau hyn yn rhoi cipolwg ar y rhwystrau sy'n wynebu ymgeiswyr gwaith yn ogystal â chyfleoedd i archwilio atebion posibl. Mae digwyddiadau recriwtio allanol a ffeiriau swyddi yn ein galluogi i ymgysylltu â cheiswyr gwaith, hyrwyddo swyddi gwag, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai fod wedi atal unigolion rhag ymgeisio. Drwy fynd i'r afael yn weithredol â'r rhwystrau hyn, ein nod yw gwella cynwysoldeb yn y broses recriwtio.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch, a bydd yn ystyried pob cais am gefnogaeth ac addasiadau rhesymol o fewn y broses recriwtio. Anogir pob ymgeisydd, boed yn fewnol neu'n allanol, i ddatgelu unrhyw anabledd neu gyflyrau niwrowahanol yn eu cais er mwyn i unrhyw addasiadau rhesymol a phriodol gael eu hystyried. Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes rheidrwydd ar weithwyr ac ymgeiswyr i ddatgelu cyflwr niwroddargyfeiriol; fodd bynnag, ni ellir cynnig cefnogaeth briodol oni bai bod yr ymgeisydd yn gwneud y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r amod.

Cynhaliodd y Gwasanaeth adolygiad trylwyr ac ailgynlluniwyd ei lenyddiaeth recriwtio i ddileu rhwystrau posibl a allai lesteirio ymgysylltiad a dealltwriaeth ymgeiswyr. Gwnaed ymdrechion i gael gwared ar jargon a therminoleg gymhleth ac i greu deunyddiau hygyrch a chynhwysol. Mae'r hysbysebion bellach yn cynnwys gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn yr is-bennawd, gan gyfleu cenhadaeth a diwylliant y sefydliad yn dryloyw. Mae hyn yn caniatáu i ymgeiswyr asesu eu haliniad â gwerthoedd y Gwasanaeth o'r dechrau, gan hwyluso hunanddewis a chydweddiad gwell rhwng ymgeiswyr ac ethos y sefydliad. Mae ein hysbysebion hefyd yn amlygu ymroddiad y Gwasanaethau i raglenni niferus, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i'r afael â thrais domestig, chwythu'r chwiban, iechyd corfforaethol a'r Lluoedd Arfog; maent hefyd yn pwysleisio ein statws fel cyflogwr sy'n cefnogi unigolion ag anableddau.

Lansiwyd tudalen Facebook bwrpasol i wella hygyrchedd ac ymgysylltiad, gan wasanaethu fel canolbwynt i ledaenu gwybodaeth am swyddi gwag, gyda'r holl swyddi wedi'u rhestru'n ddwyieithog er mwyn darparu ar gyfer cynulleidfa amrywiol. Mae delweddau amrywiol o aelodau staff wedi cael eu defnyddio i roi golwg gyfannol o'r Gwasanaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r holl rolau sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r dudalen yn dangos aelod o staff sydd yn y rôl a hysbysebir ar hyn o bryd, gan gynnig persbectif personol a gwybodaeth hanfodol i ymgeiswyr; mae'r dull hwn yn creu gofod ar-lein deniadol lle gall darpar ymgeiswyr ddatblygu dealltwriaeth wirioneddol o'r rolau sydd ar gael.

Mae'r Gwasanaeth yn glynu at ymagwedd deg sy'n seiliedig ar deilyngdod wrth werthuso pob cais, heb ragfarn na gwahaniaethu. Mae'r Gwasanaeth yn annog ymgeiswyr i ofyn am addasiadau rhesymol yn ystod y cyfnodau ymgeisio a chyfweld; mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd drwy gydol y broses recriwtio, gan amlygu'r cyfle i ymgeiswyr ofyn am yr addasiadau angenrheidiol. Ein nod yw creu amgylchedd lle mae ymgeiswyr yn teimlo'n gyfforddus ac wedi'u grymuso i gymryd rhan lawn, ac i ddarparu ar gyfer eu hanghenion penodol yn briodol.

### **Cam gweithredu 3: mabwysiadu modelau gweithio ystwyth a hyblyg a fydd yn cyfrannu at gymdeithas garbon isel drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio at ddibenion gwaith.**

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu polisi gweithio ystwyth sy'n rhoi hyblygrwydd i aelodau staff weithio naill ai gartref neu o'r swyddfa, gan feithrin trefniant hybrid pan fo hynny'n ymarferol; mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr presennol a newydd, gan sicrhau ymagwedd gyson drwy'r Gwasanaeth. Drwy leihau'r angen am gymudo dyddiol, mae'r dull gweithio ystwyth yn cyfrannu'n sylweddol at ostyngiad nodedig yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gyrru.

Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, i greu timau mwy hyblyg a thechnolegol a all weithio'n fwy effeithlon i ddarparu gwasanaeth rhagorol tra'n gwella'r berthynas rhwng gwaith a bywyd cartref. Rydym hefyd yn cydnabod manteision amgylcheddol defnyddio gweithio ystwyth i leihau teithio diangen. Mae gweithio ystwyth yn opsiwn i'r rhai mewn rolau penodol a chânt eu cefnogi lle bynnag y bo modd; ar gyfer cyflogeion mewn rhai rolau gan gynnwys diffodd tân rheng flaen, efallai y bydd rhai elfennau o weithio ystwyth (fel cyfarfodydd rhithwir) yn bosibl, ond efallai na fydd hyblygrwydd ynghylch gweithio o wahanol leoliadau yn bosibl er mwyn cynnal gofynion cyflawni gweithredol. Nodir hyn ym mhob hysbyseb swydd a chaiff ei drafod ag ymgeiswyr yn ystod y broses gyfweld.

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o adolygu a diweddarau ein polisi Gweithio Hyblyg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac i ymgorffori arferion gorau. Mae ein polisi presennol yn dilyn dull gweithredu niwtral o ran rheswm, sy'n galluogi cyflogeion i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg heb orfod datgelu'r rhesymau penodol y tu ôl i'w cais. Mae'r dull hwn yn parchu ac yn cydnabod preifatrwydd unigolion wrth hyrwyddo amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol.

Ymhellach, mae mabwysiadu arferion gweithio ystwyth o fewn y Gwasanaeth wedi hwyluso'r defnydd parhaus o offer cyfathrebu digidol megis Teams, gan alluogi cyfarfodydd rhithwir a lleihau'r angen am deithio cysylltiedig â gwaith. Mae'r symudiad strategol hwn tuag at weithio hybrid a chydweithio o bell hefyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth leihau allyriadau.

Yn ogystal â lleihau allyriadau carbon, mae'r trefniadau gweithio hyblyg yn hyrwyddo'r cysyniad o "ddegiau poeth", gan annog gweithwyr i wneud y gorau o ofod desg a thrwy hynny leihau'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â goleuo a gwresogi.

#### **Cam gweithredu 4: parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth o fewn y Gwasanaeth.**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu sawl rhaglen brentisiaeth, sydd ar hyn o bryd yn ein Hadrannau Cyllid a Fflyd, ac yn cynnig rolau gweithredol ar ffurf Prentisiaid Diffoddwyr Tân. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Dechreuodd grŵp o 12 o Brentisiaid Diffoddwyr Tân system dyletswydd amser cyflawn yn eu rolau ym mis Medi 2022, ac ymunodd 12 o brentisiaid ychwanegol â'r Gwasanaeth ym mis Ionawr 2023. Rhwng y ddau gyflenwad, mae 12 o'r ymgeiswyr penodedig yn fenywod, un yn BME, tri yn LGBTQ+, saith yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae dau â chyflyrau niwroamrywiol datganedig. Mae pump hefyd yn weithwyr presennol y Gwasanaeth, pedwar yn cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar-alwad ac un yn cael ei gyflogi mewn rôl cefnogi. Hefyd, mynychodd pump o'r ymgeiswyr a benodwyd y sesiynau gweithredu cadarnhaol cyn yr ymgyrch ym mis Mawrth 2022. Er mwyn cefnogi eu sefydlu cychwynnol, cynhaliodd yr Adran AD sesiwn wybodaeth a roddodd drosolwg o'r Adran AD, ei phrosesau allweddol a gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'u cyflogaeth. Yr amcanion oedd sicrhau eu hymgysylltiad gweithredol â'r Gwasanaeth, hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'w rolau a chynorthwyo i'w cadw.

Trwy gydol camau cychwynnol y broses recriwtio, ymgynghorir yn gyson â rheolwyr penodi ynghylch addasrwydd y rolau ar gyfer prentisiaethau. Mae opsiynau ar gyfer cyfleoedd prentisiaeth yn cael eu harchwilio a'u hailystyried wrth i'r broses recriwtio fynd yn ei blaen.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu Cynllun Mynediad Uniongyrchol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn gynnar ac ar hyn o bryd mae'n hysbysebu am swyddi Rheolwr Gorsaf. Rydym eisoes wedi recriwtio mynediad uniongyrchol i rolau ar lefelau Rheolwr Strategol, Canolig a Goruchwylio. Prif nod y cynllun yw paratoi llwybr gwahanol i mewn i rôl Rheolwr Gorsaf, ochr yn ochr â'r llwybr mwy traddodiadol ar gyfer diffoddwyr tân. Gall hyn chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau amrywiaeth o uwch reolwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu addasrwydd mynediad uniongyrchol i bob rôl rheoli weithredol cyn recriwtio, ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau proses recriwtio ar gyfer rôl Rheolwr Ardal fel rhan o Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, ac wedi cynnig hyn fel llwybr mynediad uniongyrchol. Yn dilyn proses ddethol deg ac agored gydag amrywiaeth o ymgeiswyr o gefndiroedd gweithredol ac anweithredol, cynigiwyd y rôl i ymgeisydd benywaidd anweithredol ond gwrthododd y swydd yn ddiweddarach; cynigiwyd y rôl wedyn i'r

ymgeisydd nesaf sydd â phrofiad gweithredol.

### **Cam gweithredu 5: mabwysiadu dull mwy cyfannol o wella llesiant gweithwyr, parhau i fuddsoddi mewn lleihau absenoldeb a chanolbwytio ar hyrwyddo iechyd.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran AD wedi cydweithio â'r darparwr Iechyd Galwedigaethol i wella'r prosesau presennol ac i nodi meysydd i'w datblygu. Mae cyfarfodydd misol rheolaidd gyda'r Rheolwr Cytundebau wedi sefydlu partneriaeth gref ac wedi hwyluso gweithredu dulliau gweithio newydd sy'n cydfynd ag arfer gorau.

Mae'r Arbenigwyr AD yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau i ddarparu sesiynau Trosolwg AD, gan gynnwys diweddariadau pwysig i ymgyfarwyddo gweithwyr â'r gwasanaethau y mae AD yn eu darparu a'r buddion sydd ar gael iddynt; maent hefyd yn hwyluso sesiynau Siop Siarad. Ysgogwyd y fenter hon gan yr arolwg staff Teulu Tân a'i nod yw hyrwyddo sgysiau dwyffordd a rhoi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, yn ogystal â thynnu sylw at farn a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr. Rhennir adborth o'r sesiynau hyn gyda'r grwpiau / pwyllgorau perthnasol er ystyriaeth ac ymwybyddiaeth.

Mae sefydlu'r Pwyllgor Presenoldeb, Cwynion a Disgyblaeth yn gam arwyddocaol i'r Gwasanaeth, gan fod y corff hwn yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â rheoli absenoldeb, cwynion a materion ymddygiad, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu. Drwy ganolbwytio ar y meysydd hanfodol hyn, mae'r Pwyllgor yn hyrwyddo amgylchedd gwaith teg a thryloyw sy'n annog ymddygiad priodol ac sy'n ceisio datrys anghydfodau'n effeithiol.

Gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi gweithwyr â chyflyrau iechyd hirdymor ac anawsterau iechyd meddwl sy'n deillio o straen, mae'r Gwasanaeth wedi creu dau lwybr gwahanol yn arweiniad i Reolwyr Llinell. Mae'r llwybrau hyn wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag anghenion penodol ac mae disgwyl iddynt gael eu rhannu â rheolwyr yn gynnar yn 2023. Mae hyn yn sicrhau bod gan y rheolwyr yr adnoddau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu cymorth ac arweiniad priodol i aelodau eu tîm.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth a hygyrchedd i'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael o fewn y sefydliad, mae poster newydd wedi'i ddylunio a'i ddosbarthu i bob adran a gorsaf. Mae'r poster yn amlwg yn cynnwys yr ystod o ddewisiadau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, gyda ffocws penodol ar gymorth ap symudol ar ffurf codau QR. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gymorth dros y ffôn a'r we, gan gynnig nifer o ffyrdd i weithwyr ofyn am gymorth, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau unigol.

Mewn ymdrech ragweithiol i ddeall yn well a diwallu anghenion gweithwyr sydd angen cymorth, ymwelodd aelodau o'r tîm AD a thîm yr Uned Iechyd Galwedigaethol â Jubilee House. Rhoddodd yr ymweliad hwn gipolwg gwerthfawr ar y gwasanaethau a gynigir yn y ganolfan, gan roi'r wybodaeth uniongyrchol i'r tîm AD i'w galluogi i arwain a chefnogi gweithwyr sy'n chwilio am gymorth yn effeithiol.

Mae tîm iechyd a llesiant ymroddedig wedi'i sefydlu i sicrhau dull cyfannol a rhagweithiol o ymdrin â llesiant gweithwyr mewn cydweithrediad â chymorth gan y tîm AD. Mae'r tîm iechyd a llesiant yn ymroddedig i hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cyffredinol gweithwyr, gan feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol.

### **Cam gweithredu 6: ailddilysu'r Wobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol.**

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth am wiriad statws i Gymru lach ar Waith i geisio

aiddilysu ein Gwobr Platinwm Safon Iechyd Corfforaethol.

Roedd ein cyflwyniad yn manylu ar waith llawer o dimau ar draws ein sefydliad ac yn ceisio dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Amlygodd ein cyflwyniad ein Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cwmpasu gwastraff ac ailgylchu, rheoli dŵr, gweithrediadau fflyd, bioamrywiaeth, cadwraeth ynni, caffael cynaliadwy ac ymgysylltu â'r gymuned.

Cawsom ein canmol am ein cyflawniadau corfforaethol mewn gwahanol feysydd. Roedd cyflawniadau nodedig yn cynnwys gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn sawl safle, disodli ceir fflyd disel am gerbydau hybrid a threial gweithredol o Olew Llysiâu Hydrogenedig yn lle disel. Nodwyd ein cydweithrediad gweithredol gyda phartneriaid megis Heddlu Gogledd Cymru mewn materion caffael a'n cyfranogiad mewn ymarferion Caffael Cymru Gyfan gyda'r nod o gyflawni gwerth cymdeithasol ac economaidd.

Cafodd ein hymgyrch i wella ein hystâd trwy welliannau rheoli cyfleusterau megis gosodiadau goleuo ynni-effeithlon, gosod drysau newydd, gwell rheolaethau gwresogi ac archwilio pypiau gwres ffynhonnell aer dderbyniad cadarnhaol. Roedd ein hymrwymiad i leihau gwastraff yn amlwg drwy ein cyflawniadau lleihau gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Roedd mentrau ymgysylltu cymunedol megis partneriaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a noddi digwyddiadau yn dangos ein cefnogaeth i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymroddiad y Gwasanaeth i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy raglenni fel Cadetiaid Tân, addysg diogelwch mewn ysgolion a chydweithrediadau i atal tanau a hyrwyddo llesiant.

Daeth adroddiad yr aseswr i ben trwy ddyfarnu'r Gwriad Statws Uwch Platinwm i'r Gwasanaeth, gan gydnabod ymdrechion ac ymroddiad rhagorol y sefydliad i gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

### **Cam gweithredu 7: parhau i gyfrannu at 'Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol' Cymru Gyfan.**

Mae pob Dirprwy Brif Swyddog Tân yng Nghymru wrthi'n gwerthuso fframwaith ac ailfrandio'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a fydd yn cwmpasu themâu amrywiol. Roedd gwybodaeth fanwl am ailstrwythuro'r Pwyllgor, ynghyd â'i gylch gorchwyl, ar gael yn ystod y trydydd a'r pedwerydd chwarter.

Yn ogystal, mae menter barhaus i sefydlu fforwm pwrpasol sy'n canolbwyntio ar recriwtio a gwella cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yr amcan yw ffurfio is-grŵp o dan y Grŵp Datblygu Sefydliadol a Phobl, sydd ar y cyd yn archwilio themâu ac arferion gorau penodol; bydd yr is-grŵp hwn yn sefydlu rhwydwaith ar draws Cymru gyfan, gan hwyluso cydweithredu a chynnydd yn yr ardaloedd hyn.

O ran materion gweithredol, cynhaliwyd adolygiad o bapur Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar 'ddyletswyddau wedi'u haddasu' ac mae safonau ffitrwydd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau cysondeb ar draws y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Gwahoddwyd cynghorwyr iechyd a ffitrwydd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn cyfrannu eu harbenigedd. Ar ben hynny, mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ynghylch arweiniad a hyrwyddo Elusen y Diffoddwyr Tân, gyda'r nod o ddarparu cymorth ac adnoddau i ddiffoddwyr tân.

Mae adolygiad o bapur Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar 'ddyletswyddau addasedig' wedi ei gynnal, ac mae safonau ffitrwydd hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau cysondeb ar draws y tri gwasanaeth Cymreig. Gwahoddwyd ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol, tra bod trafodaethau'n

parhau ynghylch arwain a hyrwyddo Elusen y Diffoddwyr Tân.

Bydd y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn adolygu Lefelau Modiwl Aeddfedrwydd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn unigol er mwyn cynnal dadansoddiad o'r bwch. Mae meysydd fel cydraddoldeb a recriwtio yn cael eu hystyried ar gyfer adolygiad Cymru gyfan sy'n asesu perthnasedd pynciau penodol yn y cyd-destun hwn.

### **Cam gweithredu 8: Gwella ffyrdd o gefnogi staff i ddod yn arweinwyr y dyfodol.**

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn nifer o ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â chynllun mynediad uniongyrchol sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Comisiynwyd y cynllun drwy brosiect Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, ochr yn ochr â sawl menter arall i gefnogi datblygiad arweinwyr o fewn y sector tân. Bydd y cynllun yn fframwaith i gefnogi pobl sy'n ymuno â'r gwasanaeth tân ar lefel yr Orsaf a Rheolwr Ardal wrth ymgymryd â rolau gweithredol. Mae'n rhaglen sydd wedi'i datblygu'n genedlaethol sy'n gadarn, yn sicr o ran ansawdd, ac yn gredadwy; bydd yn cael ei chydlynu a'i chefnogi'n ganolog ar lefel genedlaethol, wrth gael ei chyflawni ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd y cynllun yn cael ei ddylunio i fod yn ychwanegol i ac i ategu'r llwybrau dilyniant presennol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i feithrin a datblygu ein staff mewnol. Mae GTAGC, ynghyd â chwe Gwasanaeth Tân ac Achub arall yn y DU, wedi ymrwmo i gefnogi'r prosiect ac yn rhagweld recriwtio un ymgeisydd Cynllun Mynediad Uniongyrchol ar raglen llwybr Rheolwr yr Orsaf.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad rhyngweithiol yn Hen Golwyn a'r Rhyl a oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo gweithle cynhwysol ac arweinyddiaeth gref o fewn y Gwasanaeth. Roedd sesiwn y bore yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, dan arweiniad Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth; yn y prynhawn, cyflwynodd siaradwr o Academi Cymru gyflwyniad 'Arweinyddiaeth ar lla', gyda'r nod o ysbrydoli staff i ddilyn eu pwrpas gydag angerdd, ymarfer gwerthoedd cadarn a sefydlu perthnasoedd parhaus. Nod y digwyddiadau hyn oedd datblygu ymddygiad arweinyddiaeth a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella fel y nodwyd drwy ein Harolwg Staff 'Teulu Tân'. Mae dod yn sefydliad cynhwysol yn daith barhaus ac mae digwyddiadau fel y rhain sy'n datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ein harweinwyr yn y dyfodol yn sicrhau y gallwn esblygu fel Gwasanaeth i gwrdd â'r galwadau newidiol ar wasanaethau cyhoeddus.

### **Cam gweithredu 9: cyflwyno strwythur staff newydd a fydd yn helpu i gynyddu nifer y staff mewn cymunedau.**

Cafodd yr ailstrwythuro rheoli newydd ei weithredu ym mis Ebrill 2022, gan ddarparu adnodd staff ychwanegol ym mhob un o'r adrannau i gynorthwyo gydag argaeledd, recriwtio a hyfforddi staff er mwyn ceisio gwella argaeledd offer tân ar-alwad. Mae adnoddau ychwanegol hefyd ar gael i wella parodrwydd gweithredol criwiau trwy wneud mwy o ymarfer corff, gan ganiatáu i staff gynyddu eu gwybodaeth ynghylch risgiau allweddol a chynnal ymarferion hyfforddi yn y lleoliadau hynny (er enghraifft Gorsaf Bŵer Trawsfynydd). Yn ystod y flwyddyn, gwnaed adolygiad o'r ailstrwythuro ac mae rhai newidiadau bach wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mehefin 2023.

## **AMCAN 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd**



### **Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**



Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral net erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel' sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i waelodlin, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

Yn 2022-23, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol a'i ystyried ym mhob maes o'i waith, o atal tân i sicrhau ei fod yn ystyried technoleg sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Ymrwymodd yr Awdurdod hefyd i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol er mwyn dod yn sefydliad mwy amgylcheddol ymwybodol a chyfrifol, a bydd yn datblygu a chynhyrchu Strategaeth Amgylcheddol newydd yn ystod 2023-24.

### **Cam gweithredu 1: Sefydlu Bwrdd Strategol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth yr Amgylchedd ar gyfer yr Awdurdod.**

Mae Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd bellach wedi'i sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ac sy'n cyfarfod bob mis. Mae'r gweithgor hwn yn datblygu'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-2030, yn dilyn cyfres o sesiynau gweithgor gydag aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn adrodd i'r Pwyllgor Tir ac Eiddo sy'n cyfarfod bob tri mis.

### **Cam gweithredu 2: archwilio cyfleoedd i leihau deunydd pacio plastig ar nwyddau a ddaw i'r Gwasanaeth.**

Bydd y Strategaeth Amgylcheddol newydd hefyd yn gofyn am ddatblygu Strategaeth Lleihau Gwastraff a fydd yn nodi sut y byddwn yn lleihau pecynnu plastig ar nwyddau a brynir.

Rydym bellach wedi cyflogi Rheolwr Caffael a Chytundebau penodol sy'n adolygu ffyrdd posibl o leihau gwastraff pecynnu, a sut i hyrwyddo gwell perfformiad amgylcheddol o fewn ein cadwyn gyflenwi.

### **Cam gweithredu 3: nodi ffyrdd o ddefnyddio cyflenwadau dŵr mor gyfrifol â phosibl.**

O fewn ein Strategaeth Amgylcheddol newydd bydd ymrwymadau i:

- Fesur ac adrodd am y defnydd o ddŵr corfforaethol ar draws ein hystad.
- Ystyried cynaeafu dŵr glaw, defnyddio dŵr llwyd a mesurau cadwraeth dŵr tebyg pryd bynnag y gwneir gwaith adnewyddu neu ailadeiladu.
- Annog cadwraeth ac effeithlonrwydd dŵr ymysg staff a defnyddwyr eraill ein safleoedd a'u haddysgu am hyn.
- Ymgysylltu â Dŵr Cymru i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin ar gyfer diffodd tân.

#### **Cam gweithredu 4: chwilio am gyfleoedd i leihau faint o wastraff y mae'r Awdurdod yn ei anfon i safleoedd tirlenwi.**

Mae'r Gwasanaeth yn gwaredu tua 83 tonnell o wastraff bob blwyddyn a'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn mynd i weithfeydd Ynni o Wastraff er mwyn cael ei losgi.

Dim ond gwastraff hylendid benywaidd sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi oherwydd gofynion trin ac mae hyn yn cyfrif am lai na 10kg y flwyddyn.

Rydym wrthi'n archwilio ffyrdd o wella effeithiolrwydd ein systemau ailgylchu a byddwn yn dechrau didoli gwastraff ailgylchadwy ym mhob un o'n safleoedd o fis Ebrill 2024 ymlaen.

#### **Cam gweithredu 5: nodi ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd.**

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd aelodau'r Awdurdod Tân Adroddiad Bioamrywiaeth 2022 a'r Cynllun tair blynedd; roedd hwn yn adrodd ar y camau a gymerwyd gennym yn y cyfnod rhwng 2019 a 2022 i wella bioamrywiaeth ar ein hystad ac ardal ehangach Gogledd Cymru. Roedd yn cynnwys mesurau megis amserlenni torri gwair a darparu blychau adar, yn ogystal â'r gwaith pwysig y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i atal tanau yn yr awyr agored a all fod yn hynod niweidiol i fywyd planhigion ac anifeiliaid.

Trafodir syniadau i wella bioamrywiaeth ym mhob cyfarfod misol o'n Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Bydd y camau gweithredu a gymerwn yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn ein Hadroddiad Bioamrywiaeth a'n Cynllun Gweithredu nesaf yn 2025.

#### **Cam gweithredu 6: gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru i ddeall newid yn yr hinsawdd o safbwynt rhanbarthol.**

Mae ein Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r ddau Brif Swyddog Tân Cynorthwyol yn aelodau o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am ardal Gogledd Cymru.

Gan fod y Gwasanaeth Tân ac Achub ar y rheng flaen wrth ddelio â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd, gallwn gyfrannu persbectif gwerthfawr i'r grwpiau hyn yn ogystal â dysgu am brofiadau asiantaethau cyhoeddus eraill.

Mae'r Prif Swyddogion sy'n mynychu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cysylltiad rheolaidd â'n Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, ac mae unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei bwydo'n ôl i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

#### **Cam gweithredu 7: Gweithio gyda thirfeddianwyr i leihau nifer yr achosion o danau yn yr awyr agored ac annog hysbysiad o losgi dan reolaeth.**

Mae'r tymor llosgi yn rhedeg o'r 1<sup>af</sup> o Hydref hyd at y 15<sup>fed</sup> o Fawrth (hyd at yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth yn ardaloedd yr ucheldir) ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall ffermwyr a thirfeddianwyr ledled Cymru losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin. Mae gofynion cyfreithiol llym ar gyfer llosgi ac mae'n rhaid bod gan unigolion 'gynllun llosgi' ar waith i sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel.

Rydym wedi gweld sut mae tanau yn yr awyr agored yn peryglu bywydau – bywydau ein cymunedau yn ogystal â bywydau ein diffoddwyr tân. Mae'r tanau hyn yn defnyddio ein hadnoddau pan allai fod eu hangen



mewn argyfwng arall.

Mae'r cynnydd mewn tymereddau byd-eang yn effeithio ar dwf llystyfiant ac, o ganlyniad, gall y cyfnod llosgi dan reolaeth gyd-fynd ag amodau tir sychach nag arfer, mwy o llystyfiant a gweithgaredd bywyd gwyllt. Cyn y cyfnod hwn o losgi, mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo'r hysbysiad o losgi dan reolaeth ar ei wefan a'i holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymgysylltu â ffermwyr, tiffeddianwyr, rheolwyr tir a phartneriaid strategol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) er mwyn helpu i leihau nifer yr achosion o danau yn yr awyr agored ar draws Gogledd Cymru.

Mewn ymgais ragweithiol i ymgysylltu â pherchnogion tai sydd â llosgiadau dan reolaeth yn eu gerddi, ymwelodd staff o'r Adran Diogelwch Tân â chanolfannau garddio a safleoedd tebyg i hyrwyddo ein cyngor ar losgi dan reolaeth a'n rhif ffôn hysbysu.

### **Cam gweithredu 8: disodli unedau achub technegol i gyflawni mwy o effeithlonrwydd tanwydd ac allyriadau injan is.**

Gohiriwyd disodli'r Unedau Achub Technegol wrth i ni ystyried opsiynau i gefnogi'r 'Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys', a fydd yn sail i'r ymgyngoriad cyhoeddus sydd i'w gynnal ym mis Gorffennaf 2023.

### **Cam gweithredu 9: ystyried y pum argymhelliad a amlinellir isod gan Archwilio Cymru yn eu hadolygiad o gynnydd yr Awdurdod tuag at leihau ei allyriadau carbon.**

#### 1. Datblygu gwaelodlin garbon gywir.

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau. Rydym wedi dewis ffurfio gwaelodlin gyda data a gasglwyd ar ôl pandemig Covid 19, gan fod gorchmynion 'aros gartref' wedi effeithio'n sylweddol ar ein gweithrediadau. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y waelodlin yn adlewyrchu cyflwr ein perfformiad amgylcheddol cyn i ni wneud unrhyw beth i'w wella.

Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn defnyddio allyriadau carbon o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, ynghyd â'r allyriadau ar gyfer gweithio gartref a chymudo o 2022-23 nad ydynt wedi'u cynnwys o'r blaen. Byddwn yn adolygu'r waelodlin allyriadau carbon yn rheolaidd ac yn sicrhau ei bod yn parhau'n gywir.

#### 2. Datblygu cynllun penodol ar gyfer lleihau allyriadau carbon sy'n nodi'r camau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i ddod yn garbon niwtral ac i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Rydym wedi paratoi Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-2030, ynghyd â chynlluniau datgarboneiddio manwl ar gyfer ein fflyd a'n hadeiladau. Bydd cynlluniau manwl ar gyfer caffael a gwastraff yn cael eu datblygu yn ystod y misoedd nesaf. Yn olaf, byddwn yn cyhoeddi strategaeth yn trafod sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r allyriadau carbon na allwn eu lleihau ein hunain, fel y rhai a wneir gan ein cyflenwyr.

#### 3. Adolygu polisi'r Rhaglen Amnewid Cerbydau a chytuno ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer disodli offer disel a gwella'r seilwaith gwefru ar draws ardal y Gwasanaeth.

Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Rydym wedi paratoi Cynllun Datgarboneiddio Fflyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth newid pob peiriant disel i redeg ar danwydd arall di-garbon erbyn 2030.

4. Ymgysylltu a chynnwys staff wrth gynllunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd perchnogaeth o gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwelliant a'u bod yn cyfrannu'n llawn at gyflawni camau gweithredu allweddol.

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau, ac ni chaiff ei gwblhau byth. Rydym wedi sefydlu Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd sy'n cyfarfod yn fisol ac sydd ag aelodaeth o sawl wahanol ran o'r Gwasanaeth.

Mae Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd wedi cael sylw sawl gwaith yn ein Briff Wythnosol mewnol, ac mae wedi cynnal ymweliadau rheolaidd â'r orsaf i gwrdd â chriwiau a thrafod materion amgylcheddol. Cyflwynwyd cyflwyniad a sesiwn Holi ac Ateb am y Strategaeth Amgylcheddol i bob rheolwr canol yn y Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2023.

5. Cryfhau sut mae cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i leihau allyriadau carbon a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo ac yn arwain at welliant.

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau. Ein Pwyllgor Eiddo.

DRAFT

## **Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael**



### **Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**



Gwerth cymdeithasol yw'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Yn ystod 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei werth cymdeithasol a sicrhodd fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o'i weithgareddau, gan gynnwys cefnogaeth i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc Lleol a Phrosiect Ffenics.

### **Cam gweithredu 1: parhau i chwilio am gyfleodd i ychwanegu gwerth cymdeithasol at gymunedau.**

Cymerodd staff diogelwch tân o bob rhan o'r Gwasanaeth ran mewn gweithgareddau amrywiol gyda'u cymunedau lleol. Nid yn unig y mae hyn o fudd ac yn cynyddu llesiant cymunedau lleol, ond mae'n ein galluogi i ymgysylltu â'r rhai mwyaf agored i niwed yn y cymunedau ac yn rhoi cyfle i ni gwblhau Archwiliadau Diogel ac lach ar yr un pryd.

Dyma rai enghreifftiau o'r gweithgareddau cymunedol hyn:

- Helpodd Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i godi arian i osod diffibrilwyr yn eu cymuned leol yn Nolgellau.
- Daeth staff y gwasanaeth i ddatblygu Nadolig yng nghanolfan Gymunedol Affrica yn Wrecsam.
- Rhoddwyd bwyd i fanciau bwyd lleol.

Yn ogystal â diwrnodau agored a digwyddiadau cymunedol eraill ar draws y rhanbarth, cymerodd staff ran yn y diwrnod Arwyr Cymunedol yn Wrecsam a chefnogi a chydweithio â phartneriaid golau glas eraill, y fyddin, gwylwyr y glannau a nifer o elusennau, i gynnal digwyddiad cymunedol yng nghanol tref Wrecsam.

Mae sefydlu Byrddau Lleihau Tanau Bwriadol ôl-ddigwyddiad wedi annog cymunedau i adrodd am ddigwyddiadau o gynnu tanau bwriadol. Yn ogystal, cynigiodd Tîm Lleihau Tanau Bwriadol gyngor mewn perthynas â diogelwch afeilion a rheoli gwastraff a safleoedd, a all weithiau ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### **Cam gweithredu 2: datblygu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy**

Er bod y cynnydd tuag at gytuno ar Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy ar gyfer yr Awdurdod wedi'i ohirio oherwydd yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd datblygu strategaeth caffael gynaliadwy a moesegol. Yn ystod 2022-23, penododd y Gwasanaeth Reolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd a Rheolwr Caffael a Chytundebau a fydd yn arwain ar y cam hwn.

Mae diwygio mesur caffael ar gyfer y DU gyfan ar y gweill sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd; bydd hwn wedyn yn cynnwys iteriad pellach gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â nodau Cymdeithasol, Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol Cymru. Bydd rhaid ystyried hyn wrth ddatblygu ein Strategaeth ein hunain.

Er gwaethaf cynnydd cyfyngedig, roedd cynaliadwyedd yn dal i chwarae rhan allweddol mewn penderfyniadau ynghylch caffael a phrynu fel y gwelir yn yr amcan hwn ac yn amcan chwech. Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer ychwanegu mwy o gerbydau tanwydd-effeithlon i'r fflyd, roedd unrhyw broses dendro yn ystyried

manteision cyflenwyr lleol a oedd yn bodloni gofynion y Gwasanaeth fel mater o drefn.

### **Cam Gweithredu 3: archwilio opsiynau ar gyfer caffael lleol i'w gyflawni trwy gydweithio cenedlaethol / rhanbarthol o fewn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau golau glas eraill.**

Rydym yn ystyried cydweithrediadau caffael lleol posibl yn barhaus trwy gydweithrediadau Cymru Gyfan neu lwybrau caffael megis Gwasanaeth Golau Glas. Dyma rai enghreifftiau diweddar:

- Tendr adnewyddu gwisg gorfforaethol (Cymru Gyfan).
- Caffael Cwfl Flash (Cymru Gyfan).
- Arolygu, Cynnal a Chadw, Graddnodi ac Atgyweirio Offer Gweithdy a Chyfarpar (Cymru Gyfan).

### **Cam gweithredu 4: sicrhau bod caffael offer gweithredol newydd yn cynnwys ystyried gwaredu 'diwedd oes llwyr'.**

Mae'r Gwasanaeth yn ystyried gwaredu diwedd oes ar gyfer offer gweithredol ar ddechrau'r gweithgaredd caffael ac yn ymgorffori hyn mewn achosion busnes; yn wir, mae unrhyw achos busnes yr ydym wedi'i lunio yn ystod y 12 mis diwethaf wedi ymgorffori'r ystyriaeth honno. Mae rhai enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys:

- Bagiau bioddiraddadwy ar gyfer storio cit budr sy'n mynd i mewn i'r broses golchi dillad fel rhan o'r gweithgor halogion.
- Adolygu cit hanesyddol.
- Ailgylchu eitemau trydanol.
- Caffael ewyn ecogyfeillgar a nododd ffordd lanach o waredu yn hytrach na llosgi.

Mae meysydd eraill y mae'r adran weithredol yn eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys eitemau o ddydd i ddydd megis pecynnu cyffredinol, cynhyrchion bioddiraddadwy eraill (tapiau rhwystr ac ati) a'r posibilrwydd o ailgylchu ac atgyweirio eitemau cyfredol, lle bo'n berthnasol.

### **Cam gweithredu 5: Datblygu cyfleoedd ymhellach i weithio gyda 'Cymorth Tân' i sicrhau bod offer yn cael ei ailgylchu lle bo hynny'n bosibl.**

Yn ystod mis Mai, gyrrwyd peiriant tân ac offer rhoddedig i Wlad Pwyl gan aelodau'r Adran Weithrediadau a'i drosglwyddo'n ddiogel i Ddiffoddwyr Tân Wcráin fel rhan o gonfoi tân Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Aeth rhodd sylweddol arall o injan dân ac offer diffodd tân o Ogledd Cymru ym mis Hydref i'r Wcráin.

Ym mis Medi, cychwynnodd diffoddwr tân gweithredol ar daith 4,000 o filltiroedd i Affrica i ddsbarthu hen beiriant tân, cychod achub ac Offer Gwarchod Personol (PPE) fel rhan o 'Operation Zephyr' Cymorth Tân. Ar ôl iddynt gyrraedd, treuliyd amser hefyd yn ymgylfarwyddo'r rhai yn yr ardal â'r offer.

### **Cam gweithredu 6: datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth caffael.**

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth bersonol o fewn adrannau unigol gan y Rheolwr Caffael a Chytundebau.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei wella ymhellach pan fydd modiwl cyrchu a rheoli cytundeb y system

ariannol yn cael ei ddatblygu.

### **Cam gweithredu 7: sicrhau bod fframweithiau caffael a chytundebau yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod prosesau tendro.**

Mae angen pwysiad ychwanegol ar bob fframwaith a chytundeb caffael newydd er mwyn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd. Enghraifft ddiweddar oedd bod y gwasanaeth wedi hysbysebu 'Gwahoddiad i Dendro' drwy 'Wahoddiad Masnachol y Goron' ar gyfer Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Yn y ddogfen gwmpasu, cynhwyswyd pwysoliad o 10% ar gyfer gwerthoedd cymdeithasol a chynaliadwyedd.

Bydd yn rhaid i gyflenwyr ddangos gweithgareddau i gefnogi'r cam hwn trwy gymhwyso Nodyn Caffael a Pholisi (cyfeirnod: PPN 06/20) 'Cymryd Gwerth Cymdeithasol i ystyriaeth wrth ddyfarnu Cytundebau Llywodraeth Ganolog'.

### **Cam gweithredu 8: hyrwyddo gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd o fewn y Gwasanaeth.**

Mae gan ein Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd aelodau o lawer o wahanol rannau o'r Gwasanaeth, felly mae'r mesurau a gymerwn tuag at wella cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol yn cael eu hadrodd yno a'u bwydo'n ôl i adrannau neu leoliadau gwaith ar wahân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol, a'r ffaith bod y cysyniadau hyn yn bwysig y tu hwnt i ddyletswyddau cyfreithiol yn unig. Mae Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddogion yn ogystal â staff gweithredol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ym mhob penderfyniad polisi sylweddol.



**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru  
North Wales Fire and Rescue Authority**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023**



**Gwasanaeth Tân ac Achub  
Fire and Rescue Service**

**Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023**

This publication is available in English | Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg

## MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

### Cefndir

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddyletswyddau cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r Safonau, fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2022/23 erbyn Medi 2023 a rhoi cyhoeddusurwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog cymunedau, yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru, ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chw'rdd â disgwyliaidau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod;  
[Safonau'r Gymraeg](#)

Yn ystod 2022-23, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr [Hysbysiad Cydymffurfio 30 Medi 2016](#).

Mae hefyd yn parhau i gydweithio â grwpiau iaith allanol drwy'r Swyddog Iaith Gymraeg, yn ogystal â sefydlu Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg mewnol sy'n gwasanaethu er mwyn;

- Cydlynu rhwng adrannau ar faterion y Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad i wella unrhyw agwedd ar ddarpariaeth ddwyieithog y Gwasanaeth
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o fewn y Gwasanaeth

Yn ystod 2022-23, bu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus mewn proses dendro i sicrhau cytundeb cyfieithu gyda chwmni allanol, er mwyn helpu i gyflawni'r holl rwymedigaethau a osodwyd gan Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â chydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru, Heddlu Gogledd Cymru, a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân er mwyn rhannu gwybodaeth am arfer gorau.

**Safonau cyflawni gwasanaeth**

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:

**Safonau 8-17** - Mae'r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i ystyried pwysigrwydd dewis iaith wrth ddelio â galwadau ffôn i'r cyhoedd a chan aelodau'r cyhoedd, yn ogystal ag adnoddau sy'n cael eu rhannu'n fewnol ar sut i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

**GALL BAWB DDEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE**

**SIARADWR CYMRAEG**  
 • Goad i bobol wybod dy fod yn gallu siarad Cymraeg drwy atgodi bethoch chi'n siarad Cymraeg neu i'w siarad Cymraeg.  
 • Sefydlu oherfudd o siarad Cymraeg gydag eiddo i greu awyngylch Cymraeg yn y gweithle.  
 • Pan fydd gweithgareddau i hybu Cymraeg, rhannu'r wybodaeth wrth eiddo.  
 • Rhannu'r ffaith pechidi i'w cyffwrdd ym 100. Hydysu, wrth i'w helguddio bod eu Cymraeg yn gwell.

**DYSGWR CYMRAEG**  
 • Goad i bobol wybod dy fod yn dysgu Cymraeg drwy atgodi bethoch chi'n dysgu Cymraeg.  
 • Defnyddio dy Gymraeg wrth siarad ag eiddo ag eiddo dy fod eiddo i'w siarad Cymraeg gyda niw.  
 • Heli wrth i'w ymgeidd, yr Hysgyddwr Cymraeg, neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Cofio ei fod yn lawm i ddal ydych chi'n eiddo i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.

**PAWB**  
 • Defnyddio iaithog a-best ddywlethog a chyffwrdd gyda 'Bore Dai' neu 'Sŵr Mae'.  
 • Goad i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Atgodi ffaith yn Cymraeg ac i'w siarad Cymraeg fel eiddo i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Sicrhau bod eiddo i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Goad i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.

**RHEOLWYR**  
 • Rhannu gwybodaeth fewnol e.e. Buletin 'Mae'r Mawr', y Golefyn Cymraeg yn y Ffôn, neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Anfon negesau oherfudd i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Sicrhau bod staff i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.  
 • Goad i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg neu'r Gwyddwr i'w siarad Cymraeg.

**EVERYBODY CAN USE WELSH IN THE WORKPLACE**

**WELSH SPEAKERS**  
 • Let everybody know you can speak Welsh with a Cymraeg or 'Bore Dai' or 'Sŵr Mae' badge.  
 • Establish Welsh speaking habits with others to create a natural Welsh environment at work.  
 • Share news of any events that are happening to promote the Welsh Language as a positive message to any others that are trying to learn Welsh and remind them that their Welsh is great!

**WELSH LEARNERS**  
 • Let everybody know that you're learning Welsh by wearing a 'Dyngwr Cymraeg' badge.  
 • Use your Welsh when speaking to others and explain that you would like to practice speaking Welsh with them.  
 • Ask others in the workplace, the Language Champion, or the Language Officer about any new ways to practice your Welsh.  
 • Remember it's ok to use an English word in your sentence when learning, you will be inspired to learn that word for the next time you need it.

**EVERYBODY**  
 • Use a bilingual E-mail signature and greet people with a 'Bore Dai' or 'Sŵr Mae'.  
 • Use bilingual 'Out of Office' Messages.  
 • Answer the phone in Welsh and then English to ensure you are giving people a choice of language!  
 • Ensure that your language level is recorded and up to date with HR. If you haven't received a language assessment, please make the Training Department aware of this.

**MANAGERS**  
 • Share internal information with other members of staff i.e. 'Mae'r Mawr', y Golefyn Cymraeg i'w Ffôn, and any other relevant information.  
 • Send out key messages to staff bilingually.  
 • Ensure staff have completed the Language Awareness module and completed a Language Assessment (if needed).  
 • Set an example by using your own Welsh language skills and normalise the use of everyday Welsh in the Workplace.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth a budd cynnig dewis iaith ac felly mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli/Canolfan Gyfathrebu ar y Cyd gwbl ddwyieithog, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Yn ogystal â chydabod ei ddyletswydd foesol a moesegol i ddelio â galwadau 999 yn gyflym ac effeithiol yn newis iaith y galwr, mae penderfyniad yr Awdurdod i fynd y tu hwnt i ofynion y Safonau hefyd yn cydnabod y manteision o ran diogelwch mewn sefyllfaoedd brys pan fydd rhai galwyr yn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae swyddi gwag yn yr Ystafell Reoli yn cael eu hysbysebu gyda gofyniad sgiliau Cymraeg Lefel 4<sup>1</sup> i sicrhau bod dewis iaith weithredol yn cael ei gynnis i unrhyw alwr sy'n dymuno siarad Cymraeg. Eleni, cynhyrchwyd [fideo hyrwyddo](#) sy'n tynnu sylw at sgiliau Cymraeg ein staff ystafell reoli i gefnogi ymdrechion recriwtio.

Mae angen medru'r Gymraeg ar Lefel 4 neu uwch er mwyn gallu cynnig dewis iaith ragweithiol i unrhyw un sy'n defnyddio'r Gwasanaeth sy'n cysylltu â ni drwy'r Ystafell Reoli.

Cesglir data ar faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â ni yn y Gymraeg, at ddibenion monitro a gwerthuso. Ar 31 Mawrth 2023, ymdriniwyd â 373 (2.82%) o alwadau yn y Gymraeg. Mae hyn yn gynydd bach yn nifer y galwadau a drafodwyd yn Gymraeg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag, mae canran cyfanswm y galwadau yn aros yr un fath.


Darperir hyfforddiant i sicrhau bod staff yn gallu ac yn barod i ddelio â galwadau yn Gymraeg. Mae

<sup>1</sup> Mae'r safon Gwasanaeth ar gyfer sgiliau Cymraeg Lefel 4 fel a ganlyn: Cynnal sgysrsiau anffurfiol yn y Gymraeg gyda rhuglder, darllen ac ysgrifennu'n rhugl gyda chymorth meddalwedd gramadeg a sillafu er mwyn cywirdeb.



gweithredwyr rheoli yn defnyddio cyfarchiad safonol dwyieithog wrth ateb yr alwad, sy'n hwyluso dewis pobl i barhau â'r alwad yn Gymraeg os dymunant. Hyrwyddir hyn yn rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth ac mewn digwyddiadau cyhoeddus a fynychir i godi ymwybyddiaeth allanol. Uniaith Saesneg yw'r cyswllt cychwynnol gyda switsfwrdd brys 999 felly mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn ceisio gwrthweithio hyn ac wedi cynnwys fideos o'n staff Ystafell Reoli yn hyrwyddo eu gwaith yn y Gymraeg - ac rydym yn parhau i archwilio ymgyrchoedd pellach i amlygu ein gweithredwyr Ystafell Reoli ddwyieithog.

**Safonau 32, 36, 58-60** – Mae'r holl ddeunyddiau a llwyfannau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu harddangos yn ddwyieithog gan gynnwys gwefan y Gwasanaeth a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. Mae unrhyw boster, taflen, fideo neu ddeunydd hyrwyddo arall hefyd yn ddwyieithog. Ac eithrio arwyddion gweithredol, mae pob arwydd yn ddwyieithog.



**Safonau 62-64** – Mae polisi'r gwasanaeth yn nodi bod yn rhaid i staff sydd â swyddi wyneb blaen fod yn rhugl yn y Gymraeg (Lefel 4 ac uwch). Mae 34 o swyddi wyneb blaen, a 92 aelod o staff yn llenwi'r swyddi hyn. Mae monitro'r swyddi hyn yn ein helpu i nodi unrhyw fylchau sgiliau posibl. Nodwyd nad yw 6 o'r 92 aelod staff hyn yn bodloni'r lefel Gymraeg gofynnol ar gyfer eu swydd, ac wedi cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth ar ôl gosod y gofynion lefel Gymraeg. Roedd heriau recriwtio yn gweld diffyg ceisiadau gan ymgeiswyr â'r sgiliau Gymraeg gofynnol. Mae'r staff hyn yn cael eu cefnogi ar faterion iaith Gymraeg lle mae'r angen yn codi ac maent hefyd yn cael eu cefnogi i wella a datblygu eu sgiliau Gymraeg. Mae'r swyddi hefyd yn parhau i fod ar lefel rhuglder ar gyfer recriwtio yn y dyfodol.

**Safonau 73-77** – Mae pob hysbyseb tendr yn ddwyieithog. Mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg, os yw'n well gan gyflenwr ohebu yn y Gymraeg, gellir trefnu hyn; ni fydd unrhyw ddogfennau tendr neu ddogfennau cysylltiedig a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Byddem yn cyhoeddi tendr yn y Gymraeg os bydd yr angen yn codi e.e. Hyfforddiant Gymraeg. Mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal (nodir nad oes llawer o dendrau yn cael eu cyflwyno i ni yn y Gymraeg ond weithiau mae rhannau yn Gymraeg). Mae defnyddio gwasanaethau cyfieithu Gymraeg allanol yn helpu i gydymffurfio â Safon 76.

### Safonau Gweithredol

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn ar wefan y Gwasanaeth. Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Gweithredol sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:


**Safonau 96-101** – Mae gan staff yr hawl, sy'n cael ei hyrwyddo a'i chyfathrebu'n rheolaidd yn fewnol, i dderbyn unrhyw ohebiaeth berthnasol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni perthnasol ar gael yn ddwyieithog mewn perthynas â'u cyflogaeth. Gall staff weld y rhain ar ein gwefan gwybodaeth i staff.

Cedwir cofnod o iaith ddewisol aelod o staff i dderbyn gohebiaeth yn ei ddewis iaith.

**Safonau 102 -108** – Cyhoeddir polisiâu newydd a diwygiedig yn fewnol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n ofynnol i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg ac i nodi a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol.

- Rhoddir yr annibyniaeth i reolwyr partneriaeth fod yn arloesol gyda'u hatebion i weithgarwch atal. Roedd un prosiect peilot yn ymwneud â gosod dyfeisiau synhwyro tân newydd yng ngheginau 17 o bobl 'mewn perygl', a oedd yn digwydd bod yn breswylwyr hŷn yn byw mewn gwahanol adeiladau uchel yn Sir y Fflint. Canfu o'r data a gasglwyd o'r dyfeisiau fod 18 o danau cegin posibl wedi'u hosgoi oherwydd bod y dyfeisiau wedi diffodd y popty pan ddangosodd y synwryddion fod person wedi gadael coginio yn anfwriadol am gyfnod o amser, bod y popty yn rhy boeth neu pan oedd bwyd/olew yn llosgi. Mae'r gweithgaredd atal creadigol hwn yn achub bywydau ein pobl sydd fwyaf 'mewn perygl'. Mae cynlluniau i ehangu'r cynllun peilot i fwy o breswylwyr wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-24.
- Yn y bôn, mae GTAGC yn ôl i lefelau a dulliau ymgysylltu cyn y pandemig e.e. wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi arwain at lefel gadarnhaol o ymgysylltu â busnesau lleol.

## Blaenoriaeth 5 – Cyfranogiad a Chyfathrebu

### Amcan Cydraddoldeb 6

Trwy fod yn agored ac yn atebol am yr hyn rydym yn ei wneud a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar y ffordd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

#### Gan weithio i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Awdurdod wedi:

- Mae staff GTAGC wedi cymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru a Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru Gyfan sy'n cyfarfod bob yn ail fis a chwarterol yn y drefn honno. Mae'r fforymau hyn yn helpu i rannu arfer gorau ac adnoddau a chydweithio ar drefnu hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau cysylltiedig ag ymgysylltu eraill. Mae denu a recriwtio i'r sector cyhoeddus wedi bod yn ffocws allweddol yn ystod 2022-23.



- Mae Rheolwyr Partneriaeth GTAGC wedi bod yn weithgar iawn yn cynnal partneriaethau presennol ac yn meithrin perthnasoedd newydd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol i'r bobl sydd fwyaf mewn perygl yng Ngogledd Cymru. Er enghraifft, mae llawer o brosiectau newydd wedi'u sefydlu yn ystod 2022-23 gan gynnwys sesiynau 'cerdded a siarad' a datblygwyd ar y cyd â'r ymddiriedolaeth genedlaethol i ymgysylltu â phobl hŷn â dementia. Mae sesiynau tebyg wedi'u datblygu gyda Grŵp Parkinson's a Grŵp Cymorth Lymphedema. Mae'r ymgysylltu penodol hwn yn helpu i dargedu pobl yn y categori 'mewn perygl' ac aelodau o'u teuluoedd ehangach sy'n darparu adborth a ddefnyddiwn i werthuso a llywio ein darpariaeth gwasanaeth.

**GOGLEDD CYMRU 2022  
FFORWM RHYNG-FFYDD**

**2022 NORTH WALES  
INTERFAITH FORUM**

**Dydd Iau Tachwedd 17eg  
7:00–9:00pm ar Zoom**

**Thursday November 17<sup>TH</sup>  
7:00–9:00pm on Zoom**

**CYDLYNIANT CYMUNEDOL  
GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**  
COMMUNITY COHESION  
NORTH EAST WALES

**Gwladfaeth  
Glyndŵr  
Chaplaincy**

**Inter Faith  
Week**

**Yn cael ei gynnal gan Gwladfaeth Glyndŵr**  
"Rydym ni'n credu ein bod yn well gyda'n gilydd"

**Hosted by Glyndŵr Chaplaincy**  
"We believe we are better together"

- Mae ymgysylltu penodol â chydweithwyr yn Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Ddwyrain Cymru wedi galluogi ein gwasanaeth i gysylltu'n fwy effeithiol â grwpiau crefyddol a dyneiddiol. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gyfleu negeseuon diogelwch allweddol i bobl hŷn sy'n gynulleidfa darged ynghylch tân yn y cartref, tra'n estyn allan at bobl sy'n dathlu ac yn arsylwi crefydd yn elwa o wybodaeth diogelwch tân sy'n ymwneud â choginio, cynnau coelcerthi, llusernau, canhwyllau a llosgwyr olew.



- Mae cyflwyno rhai dathliadau a defodau crefyddol ychwanegol yn ein calendr ymgyrchoedd wedi'u cyfathrebu trwy'r wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae cydweithio â phartneriaid allanol wedi gwella ein cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt trwy rannu, ail-bostio a hoffi postïadau.





- Mae staff o rwydwaith Pride Tân y gwasanaeth yn aelodau gweithgar o Pride Gogledd Cymru a buont yn bresennol yn eu digwyddiad pride blynyddol ym Mangor (Mehefin 2022) a nifer o gyfarfodydd rhithwir a chorfforol trwy gydol 2022-23. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi galluogi'r gwasanaeth i gysylltu â chymunedau LGBTQ+, cyfathrebu gwybodaeth ddiogelwch allweddol a gofyn am adborth ar wahanol faterion a ffrydiau gwaith.
- Mae GTAGC wedi mynychu Grŵp Mynediad Arfon a ailddiwygiwyd ym mis Chwefror 2023. Mae'r grŵp hwn yn helpu ein gwasanaeth i gysylltu â rhwydwaith ehangach o bobl ag anabledd yng Ngwynedd a Môn i gyfleu gwybodaeth a gofyn am adborth.
- Mae staff diogelwch cymunedol hefyd wedi bod yn ymgysylltu mwy â banciau bwyd a lansiwyd ymgyrch costau byw ledled Cymru yn ystod misoedd y gaeaf gyda negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol – i dargedu grwpiau agored i niwed y mae'r argyfwng costau byw presennol yn effeithio arnynt a'r rheini nas clywir yn aml yn ein cymunedau.
- Mae gwelliannau hygyrchedd wedi'u gwneud i'n gwefan i sicrhau ein bod yn cynnal y safonau gofynnol a bod aelodau'r gymuned yn canfod bod gwybodaeth yn hygyrch. Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant hygyrchedd gwefan i sicrhau ein bod yn cynnal safonau wrth symud ymlaen.



- Mae ymgysylltu cynyddol â grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws Gogledd Cymru wedi gwella ein cyrhaeddiad i rai pobl nas clywir yn aml. Mae mynd i ddigwyddiadau cymunedol a drefnir gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau budd cydraddoldeb eraill yn cyfrannu at ymgysylltu a meithrin perthynas â phobl nad oes ganddynt lais yn aml iawn. Noddodd GTAGC y digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon cyntaf a gynhaliwyd yn Wrecsam a Bangor ym mis Hydref 2022. Bu staff hefyd yn mynychu digwyddiadau Nadolig a digwyddiadau amlddiwylliannol ym mis Chwefror 2022. Mae'r digwyddiadau hyn yn galluogi staff i ymgysylltu â grwpiau Affricanaidd, Caribïaidd, Portiwgaleg ac amrywiol grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill a fynychodd.
- Yn ystod 2022-23, diweddarwyd templed Cydraddoldeb, Asesiad Effaith (EqIA) y gwasanaethau i gynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, daearyddiaeth, adran i amlygu unrhyw effaith bosibl yn erbyn staff ar-alwad a grwpiau budd cydraddoldeb 'eraill'. Mae'r templed newydd hwn yn defnyddio matrices sgôr sy'n asesu'r 'tebygrwydd' a'r 'effaith' posibl felly mae mesur clir o'r risg sy'n galluogi lliniaru i ddigwydd. Mae staff ar draws gwahanol adrannau wedi cwblhau hyfforddiant EqIA. Bydd yr hyfforddiant hwn yn parhau i gael ei gyflwyno i staff drwy gydol 2023-24.

Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a gwybodaeth am gyflogaeth mewn perthynas â chyflogeion ac ymgeiswyr rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ar ein gwefan.

**I hyrwyddo cyfle cyfartal a hygyrchedd, cysylltwch â'n Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras, iaith wahanol neu fformat arall.**

## CRYNODEB GWYBODAETH PERFFORMIAD

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion sector a gasglwyd yn lleol.

DANGOSYDDION STATUDOL:	Blwyddyn 1 ein Cynllun		Blwyddyn 2 ein Cynllun		Blwyddyn 3 ein Cynllun	
	2021-22		2022-23		2023-24	
	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd
Tanau yr aethpwyd atynt	1,879	26.71	2,011	29.27		
Galwadau diangen yr aethpwyd atynt	2,517	35.79	2,674	38.92		
Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd	207	2.94	234	3.41		
Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt	751	10.68	977	14.22		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth						
Marwolaethau ac anafiadau tân	58	8.25	40	5.82		
Marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol	50	7.11	35	5.09		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth						
Tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol	375	87.62%	330	86.84%		
Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt						

Cyflwynwyd dangosyddion sector ar gyfer 2015 a chytunwyd i gael eu casglu a'u rhannu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

DANGOSYDDION SECTOR:	Blwyddyn 1 ein Cynllun		Blwyddyn 2 ein Cynllun		Blwyddyn 3 ein Cynllun	
	2020-21		2021-22		2022-23	
	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd	Rhif	Cyfradd
Tanau bwriadol	472	6.71	519	7.55		
Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys)	1,408	20.02	1,492	21.71		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth						
Marwolaethau yn gysylltiedig â thân	7	1.00	0	0.00		
Anafiadau wedi'u hachosi gan dân	51	7.25	40	5.82		
Marwolaethau cysylltiedig â thân mewn cartrefi tanau damweiniol	5	0.71	0	0.00		
Marwolaethau yn gysylltiedig â thân mewn cartref tanau bwriadol	0	0	0	0.00		
Anafiadau cysylltiedig â thân mewn cartref tanau damweiniol	39	5.54	26	3.78		
Anafiadau yn gysylltiedig â thân mewn cartref tanau bwriadol	5	0.71	3	0.44		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth						
Tanau cartref	429	13.02	380	11.49		
Tanau damweiniol yn y cartref	400	12.14	344	10.40		
Tân bwriadol mewn cartrefi	29	0.88	36	1.09		
Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi	1,100	33.40	1,165	35.23		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi						
Tanau mewn adeiladau annomestig	156	4.74	158	4.70		
Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig	295	8.95	365	10.86		
Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig						
Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod	58	13.52%	50	13.16%		
Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt						

## SIARTER YMATEB I DANAU MEWN CARTREFI YN 2022-23

Yn ystod 2012, datblygodd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru Siarter Cymru gyfan ar y cyd i sicrhau, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, y gallant ddisgwyl cael cymorth a chefnogaeth i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Dylent hefyd allu disgwyl, os bydd tân yn cynnau, y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

1. Cymryd yr awenau wrth leihau nifer y tanau mewn cartrefi sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad brys 999 i fynychu tân mewn cartref.
3. Mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau cartref yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymadau hyn yn ystod 2022-23.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd yn erbyn y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddarau'r ffigurau o fewn y fframwaith naratif.

## **1. Byddwn yn arwain y gwaith o leihau nifer y tanau sy'n digwydd mewn cartrefi a lleihau eu heffaith ar bobl.**

Rydym wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gynnal gostyngiad yn nifer yr achosion o danau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.




Yn 2022-23 rhesom gyngor ac anogaeth i bobl ar sut y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal yn cynnwys cyflwyno 18,052 o Archwiliadau Diogel ac lach i ddeiliaid tai, a chafodd 18,001 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 - 4 sgwrs diogelwch tân.

Yn ystod 2022-23 aethom i 344 o danau damweiniol mewn cartrefi. O ganlyniad i'r tanau hynny, ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau, ond cafodd 28 o bobl anafiadau difrifol. Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA wedi tueddu i fyny gyda 399 o danau damweiniol wedi eu mynychu yn ystod 2021-22.

Yn anffodus, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf wedi tueddu i fyny.

## **2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad 999 frys i fynd i dân mewn cartrefi.**

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999/112 brys i ni.



Mae ein hystafell reoli tân brys yn parhau i fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o un ystafell reoli i'r llall os bydd aflonyddwch difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un amser.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad a adroddir a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynychu'r digwyddiad.

Yn 2022-23, gwnaethom ddelio â chyfanswm o 13,224 o alwadau 999/112 brys. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am achosion o danau mewn cartrefi i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 86.1% o achlysuron a rhwng 91 a 120 eiliad ar 7.8% o achlysuron.

Fodd bynnag, gwyddom nad cyflymder trin galwadau - er yn bwysig - yw'r unig ffon fesur berthnasol. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a all, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal y maent ynddi, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgil bwysig arall yw cydnabod pan fo galwr yn cam-drin y system 999/112 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n atal lleiafrif o bobl sy'n clymu'r llinellau 999 ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa wirioneddol sy'n peryglu bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian, ac yn peri mwy o berygl i weddill y gymuned.

Yn 2022-23, cawsom 114 o alwadau diangen maleisus. Mewn 54% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i'w mynychu.

### **3. Byddwn yn mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â hwy.**

Unwaith y byddwn wedi ateb y galwad brys 999/112 a dosbarthu'r adnoddau mwyaf priodol i wneud iawn am y presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel ac yn meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.



Yn 2022-23 rydym wedi ymateb i **10%** o danau mewn cartrefi o fewn 1-5 munud, **53%** o fewn 5-10 munud, **20%** o fewn 10-15 munud ac **17%** mewn mwy na 15 munud. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél cyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. O ganlyniad, gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/gwledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn cartref yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac o gael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd tân mewn cartref wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod ein criwiau diffodd tân mewn sefyllfa briodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân gydag offer amddiffynnol personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn heini ac yn iach yn weithredol ac rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio fel mater o drefn bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn unol â gweithdrefnau diffodd tân derbyniol.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2022-23, mynychodd ein criwiau 2,011 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd wyth aelod o staff gweithredol anaf.

### **4. Byddwn yn delio â thanau mewn cartrefi yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau cywir, y wybodaeth, yr offer diffodd tân a'r cymorth gorchymyn fel y byddant, beth bynnag fo amgylchiadau'r tân mewn cartref, wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag ef.



Yn 2022-23, o'r holl danau mewn cartrefi a aethpwyd atynt, roedd 87% wedi'u cyfyngu yn llwyddiannus i'r ystafell wreiddiol, heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu allan i reolaeth y criwiau oedd yn mynychu, megis faint o amser y byddai'n ei gymryd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân y lleolwyd y cartref, rydym yn dal i ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i offer, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd o ddifrif ddelwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar rinweddau a phriodoleddau personol ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddi gweithredol a rheoli.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad i werthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned,

pobl, amrywiaeth a gwelliant.

### **5. Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.**

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.



Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i ffrindiau a'i deulu agos. Am y rheswm hwn, nid yw rôl y gwasanaeth tân ac achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan gafodd y tân ei ddiffodd a phan gyfrifwyd am bawb.

Ym mhob achos, bydd achos y tân yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn ynghylch sut a ble y cychwynnodd y tân, i ba raddau y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau i gredu bod tân wedi'i gynnu'n fwriadol mewn cartref, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar drywydd hyn.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannwyd gan nifer o wahanol denantiaid, gallai'r ymchwiliadau ôl-digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys. Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, efallai y byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd trwy Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim.

### **6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol i wneud hynny.**

Rydym bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad mwy manwl a fforensig i ganfod achos mwyaf tebygol y tân. Yn 2022-23, cofnodwyd bod achos anhysbys i 18 o danau mewn cartrefi.



Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu hamau o gynnu tân mewn cartref yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er, mewn rhai achosion, efallai nad dyma'r unig gamau gweithredu sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gychwyn gan blentyn ifanc neu gan berson sy'n ceisio lladd ei hun.

Yn 2022-23, aethom i 380 o danau mewn cartrefi, a chanfuwyd bod 36 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a rennir yn dod o dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y fangre honno (fel y landlord neu'r rheolwr safle) fod â threfniadau diogelwch tân da ar waith.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y person cyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a risg y drosedd.



Yn 2022-23, fe wnaethom gyflwyno un Hysbysiad Gorfodi ac un Hysbysiad Gwahardd. Ni ddaeth unrhyw Rybuddion Ffurfiol nac erlyniadau i ben yn ystod y flwyddyn.

## **7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.



O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd yn erbyn amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith beunyddiol o redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n digwydd yn cynnwys:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau;
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth;
- Dysgu o'n profiadau, megis o sesiynau briffio ôl-digwyddiad, adroddiadau ar ddamweiniau, neu 'Damweiniau agos';
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arfer da, a dysgu o ymchwil a wnaed;
- Cymryd cyfleoedd i ddysgu gan, a chyda sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis trwy brosesau rheoli parhad busnes;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol;
- Datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff yn barhaus;
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol fel ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg

## BETH MAE ERAILL YN EI DDWEUD AMDANOM NI

### Archwilio Cymru – Lleihau Galwadau Diangen

Mae'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân annomestig diangen y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a phroblemau capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig ar risg yn gynaliadwy. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Awdurdod yn dangos dealltwriaeth dda o'r lleoliadau, achosion ac effeithiau larymau tân mewn safleoedd annomestig;
- Mae gan yr Awdurdod bolisi wedi'i wreiddio'n dda i fynd i'r afael â galwadau tân diangen mewn adeiladau annomestig, ac mae wedi diwygio ei ddull o adlewyrchu risgiau sy'n esblygu.
- Mae'r Awdurdod yn monitro ymatebion i larymau tân awtomatig yn agos ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â safleoedd problemus.

Mae polisi'r Awdurdod wedi arwain at ostyngiad dramatig yn nifer y galwadau tân diangen y mae'n ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol ers 2015-16 ac mae angen i Aelodau graffu ar berfformiad yn y dyfodol yn wyneb pwysau ariannol heriol.

### Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon – Archwilio Cymru

Daeth adroddiad 2020-21 i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn sero carbon net erbyn 2030 oni bai bod newid sylweddol mewn perfformiad. Roedd y casgliad hwn yn seiliedig ar ddau ganlyniad allweddol: Nid oes gan yr Awdurdod gwaelodlin gywir ar ei holl allyriadau carbon, ac nid oes ganddo gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn sero carbon net.

### Archwilio Cymru – Adolygiad o Gyfranogiad 2019-20

Roedd adroddiad 2019-20 gan Archwilio Cymru yn canolbwyntio ar ddull a rheolaeth yr Awdurdod o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisi, ac wrth ddylunio gweithgareddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nid yw wedi symud eto i ddull strategol integredig o ymglymiad.

### Archwilio Cymru - Cydnerthedd Corfforaethol 2020-21

Mae'r adroddiad diweddaraf gan Archwilio Cymru wedi adolygu dull yr Awdurdod o gydnerthedd corfforaethol er mwyn rhoi sicrwydd ar ba mor dda y mae'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol a capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Canfu'r adroddiad fod yr Awdurdod wedi dangos ei wytnwch tymor byr, ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau'n wydn yn y dyfodol:

- Cyllid Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau yn dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol;
- Llywodraethu: Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol, ond mae angen i Aelodau chwarae rhan fwy canolog wrth fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Gweithlu: Mae gan yr Awdurdod weithlu gwydn ac mae wedi delio'n dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- Asedau: Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o sut y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg, ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn helpu i gefnogi gwydnwch yn y dyfodol; a
- Parhad busnes: Mae cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod wedi helpu i gynnal gwytnwch corfforaethol a gweithredol wrth ymateb i'r pandemig.

## GWYBODAETH ARALL

Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** yn egluro dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:

- Hyrwyddo diogelwch tân
- Diffodd tanau
- Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau
- Achub pobl rhag damweiniau ar y ffyrdd
- Ymateb i risgiau penodedig eraill, megis digwyddiadau cemegol
- Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr megis ymosodiadau terfysgol.

Mae **Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n cynnwys halogyddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; cwmp strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; ac argyfyngau llifogydd a dŵr mewndirol pan fyddant yn peri risg o farwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer ac ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig gan gynnwys rhannau cymunedol blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

O dan y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i wella'r hyn y mae'n ei wneud yn barhaus a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliant a'i berfformiad.

Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau'r dyfodol o bobl yng Nghymru, yn unigol ac fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac dioddefiaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mae **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg mwyach a rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Iaith Gymraeg cenedlaethol yn lle hynny.

Cyflwynwyd **Deddf Diogelu Data'r Deyrnas Unedig 2018** i foderneiddio cyfreithiau diogelu data a diwallu anghenion economi a chymdeithas gynyddol ddigidol. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, yn gweithredu safonau GDPR ar draws yr holl brosesu data cyffredinol ac yn sicrhau bod y DU yn parhau i fod â deddfwriaeth diogelu data priodol ar waith ar ôl iddi adael yr UE.

### Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=en>

### Archwilio Cymru

Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae'n ofynnol iddo asesu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella ac a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu'n unol â chanllawiau cyhoeddedig perthnasol. Mae'r archwilyr hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian.

## Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Rhif Drwydded C2010002320.

Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru: [Digwyddiadau tân \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru) Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Lloegr: [Tablau data ystadegau tân - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk) Adroddiad Tueddiadau Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017: [https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-Adroddiad 2017-en.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-Adroddiad%202017-en.pdf)

## YMYRRAETH OS BYDD METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO:

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrraeth:

- o dan adran 22 o'r **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrraeth yn berthnasol.
- o dan adran 29 o **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, i gydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau cyhoedd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau a'i amcanion strategol.

Rhestrir ymgynghoriadau diweddar isod: Arolwg o Deuluoedd Staff 2021-22 arolwg mewnol arolwg traws-drefniadaeth ac yn bwriadu ailymweld yn hydref 2023.

Teitl	Ymgynghori	Cyhoeddi	Am flwyddyn
Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020-21 ymlaen (strategaeth amgylcheddol newydd)	Hydref/Gaeaf 2019	Mawrth 2020	2020-21
Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019-20 ymlaen	Haf/Hydref 2018	Mawrth 2019	2019-20
Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018-19 ymlaen	Hydref 2017	Mawrth 2018	2018-19
Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017-18 ymlaen	Hydref 2016	Mawrth 2017	2017-18
Amcanion Gwella ar gyfer 2016-17	Hydref 2015	Mawrth 2016	2016-17
Amcanion Gwella ar gyfer 2015-16	Hydref 2014	Mawrth 2015	2015-16

## GEIRFA A DIFFINIADAU

<b>Tanau</b>	Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.
<b>Prif Danau</b>	<p>Mae’r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.</p> <p>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio’n brif danau os oedden nhw’n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.</p>
<b>Tanau Eilaidd</b>	<p>Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Tanau eilaidd yw’r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai’n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.</p> <p>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.</p>
<b>Tanau Simnai</b>	<p>Mae’r rhain yn danau mewn adeiladau a feddiannir lle mae’r tân wedi’i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i’r simnai ei hun.</p> <p>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.</p>
<b>Tanau yn yr awyr agored</b>	Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle’r aeth pedwar cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu’r Gwasanaeth yn bresennol am chwe awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.
<b>Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)</b>	<p>Digwyddiadau heb dân yw’r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffyrdd, achub personau, ‘gwneud yn ddiogel’ ac ati;</li><li>▪ trychinebau mawr;</li><li>▪ digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi’u cloi i mewn neu allan ac ati;</li><li>▪ trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.</li></ul>
<b>Marwolaethau Tân (cysylltiedig â thân)</b>	Pan fo marwolaeth person yn cael ei phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Mae yna achosion achlysurol hefyd lle daw’n amlwg wedi hynny nad y tân oedd achos y farwolaeth. Felly, mae’r ffigurau hyn yn destun adolygu.

- Anafiadau tân** Er mwyn sicrhau cysondeb ar ôl mis Ebrill 2009 ledled y DU, cofnodir anafiadau tân o dan bedwar categori difrifoldeb:
- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, ac mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n ddifrifol.
  - Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai bach.
  - Rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ond nid oedd angen triniaeth bellach.
  - Cafodd archwiliad rhagofalus ei argymhell - cafodd y person ei anfon i'r ysbyty neu fe'i cynghorwyd i weld meddyg fel rhagofal, ond heb unrhyw anaf na gofid amlwg.

**Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)**

Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at leoliad gan gredu bod yna ddigwyddiad, ond wrth gyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.

Sylwer: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi nôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei hystyried fel un ag aethpwyd ato ac nid oes angen adrodd amdano.

- Maleisus** Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys amcanion bwriadol a rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.

- Bwriad Da** Mae'r rhain yn alwadau a wneir yn ddidwyll yn y gred y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig.

**Larwm Tân Awtomatig (LTAau)**

Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys offer larwm yn cychwyn yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn canu a bod person wedyn yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, heb unrhyw 'feirniadaeth', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.

## DWEUD EICH DWEUD

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn, neu sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

### Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael

- Mewn fformatau papur ac electronig.
- Yn Gymraeg a Saesneg.
- Fel taflen gryno o'r pwyntiau allweddol.
- Mewn fformatau hygyrch trwy ein gwefan.

### Ysgrifennwch atom



Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)  
Ffordd Salesbury  
Parc Busnes Llanelwy  
Sir Ddinbych  
LL17 0JJ

### Ffoniwch ni



01745 535 250

### Anfonwch e-bost atom



Corporateplanning.helpdesk@northwalesfire.gov.wales

### Ewch i'n gwefan



[Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](#)

### Neu dilynwch ni ar



Twitter @NorthWalesFire



Facebook – [www.facebook.com/northwalesfireservice](http://www.facebook.com/northwalesfireservice)

**Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig**